

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

**Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth)
(Cymru)**

Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Mawrth 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8120
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.CCLLL@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb
a Llywodraeth Leol

**Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth)
(Cymru)**

Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Mawrth 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cynnwys: diwylliant, ieithoedd, cymunedau a threftadaeth Cymru, gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau; llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys materion tai; a chyfleoedd cyfartal i bawb.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Ann Jones (Cadeirydd)
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



Peter Black
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



Janet Finch-Saunders
Ceidwadwyr Cymreig
Aberconwy



Mike Hedges
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



Mark Isherwood
Ceidwadwyr Cymreig
Gogledd Cymru



Gwyn R Price
Llafur Cymru
Islwyn



Ken Skates
Llafur Cymru
De Clwyd



Rhodri Glyn Thomas
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



Joyce Watson
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Lindsay Whittle
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru

Cynnwys

Crynodeb o Gasgliadau ac Argymhellion	5
1. Cyflwyniad	10
2. Cefndir.....	12
3. Rhan 1 – Cyflwyniad.....	13
Trosolwg – (Adran 1)	13
4. Rhan 2 – Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	16
Gofynion iaith Gymraeg	16
Aelodaeth a Thrafodion y Comisiwn (Adrannau 4 a 6).....	19
Materion eraill ynghylch strwythur a gweithrediad y Comisiwn (Adrannau 7-20)	21
5. Rhan 3 – Trefniadau ar gyfer Llywodraeth Leol.....	23
Adolygiadau Ardal (Adrannau 23 – 28)	23
Newid canlyniadol i ffiniau cymuned (Adran 29(6))	25
Adolygu trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal (Amseriad adolygiadau Adrannau 29(3) a 29(7))	27
Terminoleg (Adran 29(10)).....	31
Prif ardaloedd a Chymunedau (Adrannau 30-33))	33
Y weithdrefn ar gyfer adolygiadau (Adrannau 34-36)	38
6. Rhan 4 – Adolygiadau o aelodaeth cyrff cyhoeddus	41
Adolygiadau o gyrff cyhoeddus cymwys (Adran 50).....	41
7. Rhan 5 – Newidiadau eraill i Lywodraeth Leol.....	44
Aelodau llywyddol prif gynghorau (Adran 51).....	44
Mynediad at wybodaeth (Adrannau 53-55)	46
Gwasanaethau democrataidd (Adran 56)	50
Pwyllgorau archwilio (Adran 57).....	53
Awdurdodau perthnasol (Taliadau i aelodau cyrff cyhoeddus eraill – Adran 59)	54
Adroddiadau blynyddol (Amseriad adroddiadau – Adrannau 60-62).....	55

Cyd-bwyllograu safonau (Adran 63)	56
Cychwyn - (Adran 69)	58
8. Goblygiadau Ariannol.....	60
9. Tystion	63
10. Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig	65

Crynodeb o Gasgliadau ac Argymhellion

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau ategol:

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y mwyafrif o dystion o blaid egwyddorion y ddeddfwriaeth a'r angen amdani. Felly, mae'r Pwyllgor yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil. (Tudalen 15)

Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth amrywiol ac yn argymhell y dylai'r Bil gynnwys darpariaethau tebyg i Ddeddf 1972 er mwyn sicrhau y bydd un o'r Comisiynwyr yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r Pwyllgor yn teimlo y byddai hyn yn sicrhau bod gan y Comisiynwyr y sgiliau iaith angenrheidiol i ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd. (Tudalen 18)

Mae'r Pwyllgor wedi nodi sylwadau'r Comisiwn, ond, ar ôl pwysu a mesur, mae'n credu bod cynyddu'r cworwm yn dderbyniol. (Tudalen 20)

Mae'r Pwyllgor yn nodi pryderon Cymdeithas Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned Mwy Gogledd Cymru ynglŷn ag ychwanegu darpariaeth i'r Bil y dylai aelodau'r Comisiwn fod o bob cwr o Gymru. Mae'r Pwyllgor yn deall y pryderon hyn ond yn credu y gallai cynnydd posibl yn aelodaeth y Comisiwn helpu i ddatrys y pryderon hynny. Felly, nid yw'r Pwyllgor yn credu bod angen diwygio'r Bil. (Tudalen 20)

Mae'r Pwyllgor yn fodlon gyda'r darpariaethau y ceir eu manylion yn adrannau 7-20. (Tudalen 22)

Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid diwygio'r Bil er mwyn i'r Comisiwn allu ystyried newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol prif gynghorau wrth adolygu ffiniau cymuned. (Tudalen 25)

Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymell, os yw'r Bil yn cael ei ddiwygio fel hyn, y dylid egluro yn y Bil pwy fyddai'n gyfrifol am wneud y newidiadau canlyniadol hynny. (Tudalen 25)

Yn dilyn adroddiad gan y Comisiwn, mae adran 37(3) yn nodi na chaniateir gwneud gorchymyn am chwe wythnos, sy'n rhoi cyfle i gynghorau cymuned gyflwyno eu sylwadau i'r Gweinidog. Rydym yn ystyried bod hynny'n ddigonol, ac yn fodlon â darpariaethau'r Bil yn y cyd-destun hwn. (Tudalen 27)

Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn nodi pryderon y Comisiwn ynglŷn â hyd y tarfu ar ei waith a achosir gan gyfnod naw mis, ac yn argymell diwygio Adran 29 y Bil i ddarparu ar gyfer cyfnod o chwe mis. (Tudalen 31)

Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r pwyntiau a godwyd gan y Comisiwn Ffiniau, ac yn argymell diwygio adran 29 i ganiatáu i'r Comisiwn gychwyn ar ei waith cyn gynted â phosibl. (Tudalen 31)

Argymhelliad 6: Mae'r Pwyllgor yn argymell diwygio'r Bil i sicrhau bod eglurder rhwng cynnal adolygiad a chyhoeddi cynigion yr adolygiad hwnnw o ran yr hyn fyddai'n cael ei ganiatáu yn ystod y cyfnod a ddarperir ar ei gyfer yn adran 29. (Tudalen 31)

Argymhelliad 7: Nid yw'r Pwyllgor yn credu bod y newid terminoleg a nodir yn adran 29(10) yn ddefnyddiol. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ailystyried y newidiadau mewn terminoleg a gyflwynodd. (Tudalen 33)

Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r ystyriaethau a oedd yn ofynnol yn adran 30, o ran cymarebau cynghorwyr i etholwyr a chynnal clymau cymuned. (Tudalen 37)

Mae'r Pwyllgor hefyd yn fodlon â'r gofynion yn adrannau 30(2) a 33(5) sy'n ymwneud â'r angen i'r Comisiwn ystyried nifer yr etholwyr llywodraeth leol. (Tudalen 37)

Argymhelliad 8: Mae'r Pwyllgor yn credu bod barn y Comisiwn yn rhesymol ar adrannau 31 i 33. Felly, mae'r Pwyllgor yn argymell diwygio'r Bil er mwyn iddo gynnwys mecanweithiau i gysylltu

adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardaloedd ag adolygiadau o gymunedau. (Tudalen 37)

Argymhelliad 9: Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan gyda'r darpariaethau ymgysylltu y manylir yn eu cylch yn adrannau 34-36. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi'r darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi fersiynau electronig o'r adroddiadau. Mae'r Pwyllgor yn argymhell eu bod yn cael eu diwygio i egluro bod fersiynau copi caled o adroddiadau hefyd ar gael ar gais. (Tudalen 40)

Argymhelliad 10: Mae'r Pwyllgor yn nodi barn y Gweinidog bod dyletswydd yn bodoli eisoes i ymgynghori. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn argymhell fod y Gweinidog yn cyhoeddi canllawiau i'r Comisiwn ar arferion gorau ar ymgysylltu â'r cyhoedd. (Tudalen 40)

Argymhelliad 11: Mae'r Pwyllgor yn fodlon mewn egwyddor â'r cynnig sydd wedi'i gynnwys yn adran 50. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn argymhell cynnwys yn y Bil rhestr o gyrff a allai fod yn destun cyfarwyddyd dan Adran 50, a dylid ychwanegu darpariaeth at y Bil a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu cyrff at y rhestr honno, gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol. (Tudalen 42)

Argymhelliad 12: Os nad yw'r Gweinidog am gyflwyno diwygiad i weithredu Argymhelliad 11, byddai'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn edrych o'r newydd ar eiriad yr adran hon i weld a ellir datrys rhai o bryderon y Comisiwn am eglurder. Yn benodol, dylid ailystyried y cyfeiriad at 'arfer swyddogaethau' yn isadran 5(c) i sicrhau bod cyrff newydd (fel Cyfoeth Naturiol Cymru y cyfeirir ato gan y Gweinidog) a gynigir i arfer swyddogaethau wedi'u cynnwys yn glir. (Tudalen 43)

Ar y cyfan, ystyriwyd bod darparu ar gyfer aelod llywyddol yn syniad da, o ystyried y sgiliau gwahanol iawn sy'n ofynnol i gadeirio cyfarfodydd cyngor o gymharu â'r rhai sydd eu hangen ar gyfer rolau ffurfiol a chynrychioliadol. Fodd bynnag, nid oedd lleiafrif o'r Aelodau wedi'u hargyhoeddi y gellid cyfiawnhau hyn heb ddarpariaeth bellach yn y Bil, mewn perthynas ag uwch-gyflogau ychwanegol.

(Tudalen 46)

Argymhelliad 13: Mae'r Pwyllgor yn argymhell diwygio'r Bil i ymestyn swydd aelod llywyddol i gynnwys y cyfarfod cyngor cyntaf ar ôl etholiad. (Tudalen 46)

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon a godwyd ynghylch cyllido'r adran hon o'r Bil, ac yn gobeithio y bydd cyhoeddiad y Gweinidog ar 29 Ionawr 2013 ar gyllid yn cynorthwyo yn hyn o beth. (Tudalen 50)

Argymhelliad 14: Mae'r Pwyllgor yn argymhell diwygio adran 53 o'r Bil i gynnwys:

- gofyniad i gyhoeddi'r gofrestr o fuddiannau Aelodau ar-lein;
- dyletswydd ar brif gynghorau i fod yn ddarostyngedig i'r un ymrwymadau cyhoeddi â chynghorau tref a chymuned;
- pŵer i Weinidogion Cymru allu ychwanegu eitemau at y rhestr yn adran 53(1). (Tudalen 50)

Argymhelliad 15: Mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau'r Gweinidog fod cynghorau cymuned a thref yn cael eu rhestru o dan Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac y gallant o bosibl fod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg pan ddaw'r system i rym. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog barhau i adolygu'r goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer cynghorau cymuned a thref i ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog o dan adrannau 53-55 os mai dyna a fydd yn digwydd. (Tudalen 50)

Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd y cyllid a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ar 29 Ionawr 2013 hefyd yn cael ei ddefnyddio tuag at ddarlledu cyfarfodydd cynghorau sir. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid cymryd camau i ddarlledu cyfarfodydd o'r fath cyn gynted â phosibl. (Tudalen 50)

Argymhelliad 16: Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth ac yn nodi y gall pwyllgorau gwasanaethau democrataidd ond adolygu'r cymorth sydd ar gael i aelodau 'ar gais yr awdurdod'. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid diwygio'r Bil fel y gall y pwyllgor gwasanaethau democrataidd gynnal adolygiadau o'r fath ar gais 10% o aelodau'r cyngor yn hytrach na'i fod ond yn gallu digwydd ar gais yr awdurdod. (Tudalen 52)

Argymhelliad 17: Mae'r Pwyllgor o blaid y cynnig yn y Bil ond yn argymhell bod y Gweinidog yn ystyried a oes angen camau pellach i hyrwyddo cydbwysedd a gwaith craffu pwyllgorau cyngor. (Tudalen 54)

Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r darpariaethau yn adran 59 y Bil a fydd yn galluogi Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i adolygu taliadau i aelodau eraill o gyrff cyhoeddus. (Tudalen 55)

Argymhelliad 18: Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth ac yn credu y dylai Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol barhau i gyhoeddi ei adroddiad blynyddol ar ddiwedd mis Rhagfyr. Felly, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid diwygio'r Bil i adlewyrchu hyn. Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd hyn yn darparu eglurder pan fo cynghorau'n llunio eu cynlluniau ariannol ar gyfer y flwyddyn ganlynol. (Tudalen 56)

Argymhelliad 19: Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid diwygio'r Bil i sicrhau bod darpariaeth sy'n caniatáu i un awdurdod gyfeirio mater safonau at sylw Pwyllgor Safonau awdurdod arall os pennir ei bod yn amhriodol i bwyllgor arall ei ystyried. Os yw'r Gweinidog yn penderfynu gwneud cyd-bwyllgorau safonau'n orfodol yn hytrach na dewisol, gallai'r pŵer trosglwyddo fod yn berthnasol o hyd, hyd nes y sefydlir cyd-bwyllgorau. (Tudalen 58)

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y goblygiadau cost a nodwyd wrth ddarparu mynediad at wybodaeth gan gynghorau tref a chymuned. Mae'r Pwyllgor yn fodlon y dylai hyn gael ei ddatrys gan y cyllid a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ar 29 Ionawr 2013. (Tudalen 62)

1. Cyflwyniad

1. Ar 26 Tachwedd 2012, cyflwynodd Carl Sargeant AC, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (“y Gweinidog”), Fil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)¹ (“y Bil”) a gwnaeth ddatganiad² mewn cyfarfod llawn³ y diwrnod canlynol.
2. Yn ei gyfarfod ar 13 Tachwedd 2012, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol (“y Pwyllgor”) er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor adrodd i'r Cynulliad erbyn 8 Mawrth 2013.
3. Ar 4 Rhagfyr 2012, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ddiwygio terfyn amser adrodd y Pwyllgor i 22 Mawrth 2013.

Amodau craffu

4. Cytunodd y Pwyllgor ar y fframwaith canlynol ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil:

Ystyried:

- i) yr angen i'r Bil:
 - ddiwygio trefniadaeth a swyddogaethau Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru;
 - diwygiadau i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol a strwythur pwyllgorau archwilio awdurdodau lleol;

¹ Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru), ar gael yn <http://www.cynulliadcymru.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=240849&ds=11/2012>

² Cofnod y Trafodion, 27 Tachwedd 2012, ar gael yn:

<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/cy/bus-chamber-fourth-assembly-rop.htm?act=dis&id=240944&ds=11%2F2012#bil>

(DS: oni nodir yn wahanol, mae cyfeiriadau dilynol yn yr adroddiad hwn at Cofnod y Trafodion yn cyfeirio at drafodion y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol)

³ Cyfarfod llawn o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

- darpariaethau ynghylch mynediad y cyhoedd at wybodaeth sy'n ymwneud â chynghorau tref a chymuned;
 - diwygiadau i Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i hwyluso'r broses i awdurdodau lleol greu cyd-bwyllgorau safonau;
 - darpariaeth sy'n ymwneud â rôl Cadeirydd neu Faer prif gynghorau;
 - ail-lunio a chyfnerthu darpariaethau llywodraeth leol cyfredol mewn perthynas â'r Comisiwn Ffiniau.
- ii) y darpariaethau allweddol a nodir yn y Bil ac a ydynt yn briodol i gyflawni'r amcanion a nodir;
 - iii) rhwystrau posibl i weithredu'r darpariaethau allweddol ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
 - iv) safbwyntiau rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio gyda'r trefniadau newydd.

Dull y Pwyllgor

5. Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad a gwahoddodd rhanddeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i lywio gwaith y Pwyllgor. Mae rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael ar dudalen 61.
6. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Mae rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar dudalen 59.
7. Mae'r adroddiad canlynol yn cynrychioli casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor ar sail y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod eu gwaith.
8. Nid yw'r adroddiad hwn yn rhoi sylwadau ar bob adran o'r Bil. Lle na chynigir sylwadau ar adran benodol, gellir rhagdybio bod y Pwyllgor yn fodlon â'r darpariaethau fel ag y maent yn y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd.
9. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd.

2. Cefndir

Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil

10. Mae'r Memorandwm Esboniadol⁴ yn datgan fod darpariaethau'r Bil yn ymwneud â phennawd 12 (Llywodraeth Leol) yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a nodir ar dudalen 5 y Memorandwm Esboniadol.

11. Mae'r pennawd Llywodraeth Leol yn cynnwys y pwnc 'Trefniadau etholiadol awdurdodau lleol' sy'n berthnasol i Rannau 2, 3 a 4 y Bil. Mae cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o dan Lywodraeth Leol hefyd yn cynnwys y pwnc 'Pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion', ac mae'n amlwg bod darpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â chynghorau lleol yn Rhan 5 (adrannau 51-63) yn ymwneud â'r pwnc hwn. Mae adrannau eraill y Bil yn Rhan 6 yn cynnwys darpariaethau sy'n ychwanegol at y 63 adran gyntaf.

Memorandwm Esboniadol

12. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi:

“Amcan cyffredinol y Bil yw sicrhau bod democratiaeth leol yn gweithredu mor effeithlon â phosibl a gwella'r broses ddemocrataidd o fewn llywodraeth leol.”⁵

13. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro:

“Bwriedir iddo sicrhau bod awdurdodau lleol yn gynrychioliadol o'u cymunedau mewn modd democrataidd, yn cael eu trefnu yn y ffordd fwyaf effeithiol ac yn cyfathrebu'n dda â'r cyhoedd. Bydd craffu lleol cadarn yn ddull effeithiol o ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus ac yn golygu y gall y cyhoedd gael mwy o hyder yn y broses ddemocrataidd.”⁶

⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Esboniadol, ar gael yn: <http://www.cynulliadcymru.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=240850&ds=11/2012>

⁵ Memorandwm Esboniadol, paragraff 10, tudalen 6

⁶ Memorandwm Esboniadol, paragraff 10, tudalen 6

3. Rhan 1 – Cyflwyniad

Trosolwg – (Adran 1)

Cefndir

14. Mae adran 1 yn rhoi trosolwg o brif ddarpariaethau'r Bil a'r hyn y mae'r Bil yn ceisio'i gyflawni.

Tystiolaeth gan dystion

15. Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a ddaeth i law o blaid yr egwyddorion cyffredin a'r angen am y Bil.

16. Dywedodd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn"):

"We think that it is important. This is the first time for 40 years that we have had a piece of legislation affecting the Local Government Boundary Commission for Wales. The last Act was the Local Government Act 1972, and it is surprising what a long time has passed without bringing the powers up to date. We recognise that the Bill makes important improvements to the 1972 Act, for example, dividing communities into wards, and the powers to consult and to determine councillor numbers."⁷

17. Aeth y Comisiwn ymlaen i ddweud:

"However, we have reservations about certain aspects of the Bill."⁸

18. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ("CLILC"):

"Broadly ... we welcome it and regard it as an appropriate Bill to introduce."⁹

19. Cytunodd Un Llais Cymru bod angen y Bil. Dywedodd:

"We in One Voice Wales see the Bill as being necessary to overcome some of the issues that have occurred over recent

⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 9, 17 Ionawr 2013

⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 9, 17 Ionawr 2013

⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 134, 17 Ionawr 2013

years in the outcomes of some of the electoral reviews, which have seemed at times a little ill-conceived. Naturally, we welcome the Bill. At face value, it addresses the issues of the Mathias review, and that is to be welcomed.”¹⁰

20. Cytunodd Cymdeithas Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned Mwy Gogledd Cymru bod angen y Bil a’r egwyddorion cyffredinol sy’n sail i’r cwbl.¹¹

21. Dywedodd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol:

“As it [the Bill] stands, we are content with most of the measures contained within the Bill, and there are a few amendments that could improve what is in there.”¹²

Tystiolaeth gan y Gweinidog

22. Dywedodd y Gweinidog:

“On the main provisions of the Bill, you will be aware of the Mathias review of the Local Government Boundary Commission Wales, and the conditions around that. There were proposals in the Mathias review that enabled us to make some structural and operational changes, and there were recommendations in the review that indicated the legislative competence required to make those significant changes. Broadly, the Bill is based around the Mathias review and its recommendations. We also took this opportunity to introduce some tidying-up exercises around the Local Government (Wales) Measure 2011 ... Broadly, it is Mathias and some tidying-up exercises.”¹³

23. Gofynnwyd i’r Gweinidog a oedd unrhyw drafodaethau wedi’u cynnal gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru am gymhwysedd y Bil, ac yn benodol y pwerau o dan Adran 45 (*Newid Ardal Heddlu*) y Bil. Dywedodd y Gweinidog:

“I wrote to the Home Secretary, ... I have heard nothing back from the Home Office. I assume from that that they are content

¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 10, 23 Ionawr 2013

¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 9, 23 Ionawr 2013

¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 213, 23 Ionawr 2013

¹³ Cofnod y Trafodion, paragraff 11, 9 Ionawr 2013

with the Bill. I would imagine that they are content with the Bill".¹⁴

24. O ran darpariaethau adran 45, dywedodd y Gweinidog:

"Is it ideal? I think that it probably is not, in that police boundaries and the competence are matters for the Home Secretary, and community council boundaries are the responsibility of the Minister in Wales. However, that is where we are".¹⁵

Ein barn

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y mwyafrif o dystion o blaid egwyddorion y ddeddfwriaeth a'r angen amdani. Felly, mae'r Pwyllgor yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 56, 9 Ionawr 2013

¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 57, 9 Ionawr 2013

4. Rhan 2 – Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Gofynion iaith Gymraeg

Cefndir

25. Nid yw'r Bil yn ailadrodd y gofyniad statudol yn *Neddf Llywodraeth Leol 1972*¹⁶ i un o'r Comisiynwyr allu siarad Cymraeg. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y bydd aelodau'r Comisiwn yn cael eu penodi yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg cyfredol Llywodraeth Cymru.

Tystiolaeth gan dystion

26. Cafodd y Pwyllgor safbwyntiau cymysg ar ddi-ddymu'r gofyniad statudol i un Comisiynydd allu siarad Cymraeg.

27. Credai'r Comisiwn y dylid cadw'r gofyniad am siaradwr Cymraeg:

“We understand that the position would be that the Minister would make appointments based on the Welsh language scheme of the Welsh Government. That is fine, but that does not necessarily guarantee that a member of the commission will have language skills. So, we thought that what was in the 1972 Act was worth capturing in this piece of legislation, because, in doing reviews, we are a front-line service to local authorities and community councils. We think that that language skill is an important element that enables us to fully engage.”¹⁷

28. Cytunodd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol gyda'r Comisiwn a dywedodd ei bod yn hanfodol cael comisiynydd sy'n siarad Cymraeg.¹⁸ Aeth ymlaen i ddweud:

“It would be essential given that the Bill is looking to engage more with the public, and to be seen as more participative, and

¹⁶ Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1972/70>

¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 35, 17 Ionawr 2013

¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 236, 23 Ionawr 2013

so on. It is essential that there would be a Welsh speaker as a commissioner.”¹⁹

29. Rhoddodd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol sylwadau hefyd ar y ddarpariaeth yn y Bil mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Dywedodd:

“The Bill refers to the Welsh Government’s corporate language policy, and not to the Welsh Language Act 1993 ... Where that policy deals with public appointments, it does not seem to guarantee a Welsh speaker; it seems to depend on the Welsh Government’s own assessment of the skills necessary for the team to do its work. [It] seems to water down the equality guarantee that is in the 1972 Act ... It also seems slightly perverse, in light of the fact that Welsh is now an official language, for that provision to be watered down.”²⁰

30. Fodd bynnag, roedd tystion eraill yn fodlon bod *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*²¹ a *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*²² yn rhoi sylw digonol i'r mater ac y dylai penodiadau fod ar sail yr unigolyn gorau ar gyfer y swydd.

31. Credai Cymdeithas Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned Mwy Gogledd Cymru mai ansawdd yr unigolyn ar y pwyllgor²³ oedd y peth pwysicaf. Aeth ymlaen i ddweud:

“If there is a need to have expertise regarding the Welsh language, there is the ability within here to pull people in on an advisory basis to do that.”²⁴

32. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn fodlon bod y ddeddfwriaeth a oedd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn ddigonol. Dywedodd:

“...We think that that more recent legislation is probably a better way of ensuring that the Welsh language is properly considered.”²⁵

¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 236, 23 Ionawr 2013

²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 238, 23 Ionawr 2013

²¹ Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/38/contents>

²² Ar gael yn: <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted>

²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 39, 23 Ionawr 2013

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 39, 23 Ionawr 2013

²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 22, 31 Ionawr 2013

33. Wrth ei holi a allai peidio â chael siaradwr Cymraeg achosi problemau o ran peidio â deall enwau Cymraeg ac ystyriaethau tebyg, dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru:

“....There are any number of non-Welsh speakers who would be more than capable of understanding the boundaries, local names, names of local communities, et cetera.”²⁶

Tystiolaeth gan y Gweinidog:

34. Pan ofynnwyd iddo a oedd y newidiadau i'r Bil yn gwanhau'r gofyniad iaith Gymraeg yn *Neddf Llywodraeth Leol 1972*, dywedodd y Gweinidog:

“I would not want any member of the committee, or anyone giving evidence, to think that we are trying to water down the effects on the Welsh language.”²⁷

35. Credai'r Gweinidog y dylid ystyried y Gymraeg gyda phob penodiad, yn hytrach nag un unigolyn yn unig ac na ddylid cael un unigolyn yn unig er mwyn gallu ticio'r blwch Cymraeg. Dywedodd:

“The public appointments procedure is covered by the Welsh Government's Welsh language scheme, which ensures that the need for Welsh-speaking commissioners is taken into account during the recruitment process.”²⁸

36. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog ei fod yn fwy na pharod i wrando ar safbwyntiau Aelodau os nad ydynt yn cytuno â hynny.²⁹

Ein barn

Argymhelliad 1:

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth amrywiol ac yn argymhell y dylai'r Bil gynnwys darpariaethau tebyg i Ddeddf 1972 er mwyn sicrhau y bydd un o'r Comisiynwyr yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r Pwyllgor yn teimlo y byddai hyn yn sicrhau bod gan y Comisiynwyr y sgiliau iaith angenrheidiol i ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd.

²⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 24, 31 Ionawr 2013

²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 11, 6 Chwefror 2013

²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 13, 6 Chwefror 2013

²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 11, 6 Chwefror 2013

Aelodaeth a Thrafodion y Comisiwn (Adrannau 4 a 6)

Cefndir

37. Mae Adran 4 yn nodi mai aelodau'r Comisiwn fydd yr aelod sy'n cadeirio, y dirprwy gadeirydd, a hyd at dri arall.

38. Mae Adran 6 yn cynyddu'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn o ddau (fel ar hyn o bryd) i dri.

Tystiolaeth gan dystion

39. Nid oedd y Comisiwn yn cytuno y dylid cynyddu'r cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn i dri, yn bennaf oherwydd y goblygiadau o ran costau. Dywedodd:

“.... at the moment, we have three members, and the quorum is two. Obviously, this carries the risk that it could be inappropriate for significant decisions to be made by just two people. The Bill proposes increasing the quorum from two to three to eliminate that risk. However, we consider that, if you increase the quorum to three, and we still have three members, that increases the risk of meetings becoming inquorate if one of the members cannot turn up. However, increasing the membership to four or five, which is allowed at the moment and under the new Bill, would reduce that risk but would increase the cost of running the commission.”³⁰

40. Dywedodd y Comisiwn ei fod wedi amcangyfrif y byddai cost pob aelod ychwanegol tua £6,000 y flwyddyn o leiaf.³¹

41. Er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn parhau â'i waith o ddydd i ddydd heb wynebu costau ychwanegol ar gyfer aelodau ychwanegol, awgrymodd y Comisiwn y dylai'r cworwm aros yn ddau, ac y gallai'r aelod absennol ddilysu penderfyniadau ynghylch adolygiadau neu benderfyniadau pwysig eraill yn ddiweddarach.³²

42. Dywedodd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol:

³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 44, 17 Ionawr 2013

³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 44, 17 Ionawr 2013

³² Cofnod y Trafodion, paragraff 44, 17 Ionawr 2013

“I think the boundary commission stated last week that it was against increasing the quorum on the basis of cost...We are happy to defer to the boundary commission on that. What I would note is that having more commissioners being appointed might possibly make it easier to appoint women, and possibly to appoint a Welsh speaker.”³³

43. Roedd Cymdeithas Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned Mwy Gogledd Cymru yn cefnogi'r cynnig i gynyddu'r cworwm, ond yn credu y dylid caell darpariaeth yn y Bil i sicrhau bod pob ardal o Gymru yn cael ei chynrychioli³⁴ ar y Comisiwn.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

44. Nid oedd y Gweinidog yn rhannu barn y Comisiwn y byddai cynyddu'r cworwm yn arwain at gostau llawer uwch. Dywedodd:

“I think that a minimum of three members for the commission to be quorate would be reasonable, and that is why I have imposed that.”³⁵

Ein barn

Mae'r Pwyllgor wedi nodi sylwadau'r Comisiwn, ond, ar ôl pwysu a mesur, mae'n credu bod cynyddu'r cworwm yn dderbyniol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi pryderon Cymdeithas Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned Mwy Gogledd Cymru ynglŷn ag ychwanegu darpariaeth i'r Bil y dylai aelodau'r Comisiwn fod o bob cwr o Gymru. Mae'r Pwyllgor yn deall y pryderon hyn ond yn credu y gallai cynnydd posibl yn aelodaeth y Comisiwn helpu i ddatrys y pryderon hynny. Felly, nid yw'r Pwyllgor yn credu bod angen diwygio'r Bil.

³³ Cofnod y Trafodion, paragraff 232, 23 Ionawr 2013

³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 26, 23 Ionawr 2013

³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 6 Chwefror 2013

Materion eraill ynghylch strwythur a gweithrediad y Comisiwn (Adrannau 7-20)

Cefndir

45. Mae adrannau 7 i 20 o'r Bil yn ymdrin â materion eraill sy'n ymwneud â strwythur a gweithrediad y Comisiwn, gan gynnwys penodi'r prif weithredwr gan Weinidogion Cymru (adran 8); materion staffio (adran 9); y gallu i benodi cynghorwyr arbenigol (adran 10); yr angen i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau, cyffredinol neu benodol, a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (adran 14); a'r angen i'r Comisiwn sefydlu pwyllgor archwilio (adran 17).

Tystiolaeth gan dystion

46. O ran yr angen i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau, cyffredinol neu benodol, a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru (adran 14), dywedodd y Comisiwn:

“...cyn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon mewn perthynas â'r Rhan hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn.”³⁶

47. Dywedodd CLILC fod y pŵer cyfarwyddo yn debyg i'r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd.³⁷

Tystiolaeth gan y Gweinidog

48. Mewn perthynas â'r darpariaethau dan adran 14, dywedodd y Gweinidog:

“The general power of direction is currently in place. It is an instruction of last resort. A Minister never really wants to make a power of direction to an organisation, but you never know—you cannot predict what may or may not happen in the future. The last commission was one where directions and orders needed to be made. This is the same provision updated for this new Bill. I would hope that I would not have to make direction and that our discussions with the commission would facilitate

³⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 6

³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 150, 17 Ionawr 2013

the necessary changes, but this provides a backstop to make that direction if need be, as is currently available.”³⁸

Ein Barn

Mae'r Pwyllgor yn fodlon gyda'r darpariaethau y ceir eu manylion yn adrannau 7-20.

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 29, 9 Ionawr 2013

5. Rhan 3 – Trefniadau ar gyfer Llywodraeth Leol

Adolygiadau Ardal (Adrannau 23 – 28)

Cefndir

49. Mae adrannau 23-28 yn cynnwys adolygu ffiniau prif ardaloedd (adran 23), adolygu prif ardaloedd yn dilyn gorchymyn tref newydd (adran 24), adolygu ffiniau cymuned gan brif gyngor (adran 25), adolygu ffiniau cymuned gan y Comisiwn (adran 26), adolygu siroedd wedi eu cadw (adran 27) ac adolygu ffiniau tua'r môr (adran 28).

50. O dan y Bil, bydd gallu presennol y Comisiwn i adolygu ffiniau prif ardaloedd yn parhau, a gall y Comisiwn wneud newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol perthnasol prif ardaloedd, neu i gymunedau, os yw'n cynnig newid unrhyw ffiniau o'r fath.

51. Gall y Comisiwn a phrif gynghorau gynnal adolygiadau ardal o ffiniau cymuned hefyd. Mae'r Bil yn galluogi prif gyngor i gynnal adolygiad o'r fath ar ei liwt ei hun neu pan ofynnir iddo wneud hynny gan gymuned yn ei ardal. Mae'r Bil yn galluogi'r Comisiwn i gynnal adolygiad cymuned os yw prif gyngor yn gofyn iddo ei gynnal ar ran y cyngor; os nad ydynt yn fodlon ag adolygiad cymuned a gynhelir gan brif gyngor; neu os yw prif gyngor wedi methu cynnal adolygiad o'r fath yn unol â chyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru. Gall y Comisiwn adennill y costau o gynnal adolygiad cymuned gan y prif gyngor o dan amgylchiadau penodol.

Tystiolaeth gan dystion

52. Nododd y Comisiwn fod darpariaeth eisoes yn bodoli mewn deddfwriaeth gyfredol i wneud newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol prif gynghorau wrth adolygu ffiniau cymuned, ond nad yw wedi'i chynnwys yn Bil:

“A provision exists under the current legislation for the commission to consider consequential changes to principal councils' electoral arrangements when reviewing community boundaries. We think that this is essential for tidying up the boundaries of electoral divisions. We would like that provision to be added to section 26(3)(b) ... The Bill does not give us that

power. The consequence of that would be that there would be an anomaly between the community boundaries and the electoral division boundaries, which would remain in place until such time as the commission conducts an electoral review.”³⁹

53. Fodd bynnag, os mai dyma’r achos, byddai angen mynd i’r afael â’r mater o bwy fyddai’n gwneud unrhyw newidiadau canlyniadol o dan amgylchiadau o’r fath. Dywedodd y Comisiwn:

“We are asking that the Bill is changed to bring in this consequential change; we think that that is important. If the Welsh Government and yourselves think it appropriate for the commission then to make the Order to bring that into effect, then that can be encompassed within the Bill and within the powers that the Bill gives us. However, if there are concerns, which the Welsh Government or yourselves might have, about the commission making Orders for electoral arrangements for principal authorities, then the Bill would need to be changed accordingly.”⁴⁰

Tystiolaeth gan y Gweinidog

54. Roedd y Gweinidog yn credu bod rhywfaint o werth i bwynt y Comisiwn⁴¹ a dywedodd y byddai’n ei ystyried ymhellach yng nghan nesaf y broses hon.⁴²

55. Eglurodd un o swyddogion y Gweinidog pwy fyddai’n gwneud unrhyw newidiadau canlyniadol:

“Section 40 of the Bill deals with consequential provision when a body, whether it is Welsh Ministers, the Commission or a Principal council, is making an Order to implement proposals, and it includes the possibility of changing electoral divisions in principle councils, as a consequence of a community review. We need to clarify and look again at who would make any consequential changes to electoral divisions following a community review where the commission makes the order. I

³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 68, 17 Ionawr 2013

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 114, 17 Ionawr 2013

⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 6 Chwefror 2013

⁴² Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 6 Chwefror 2013

think that that is what they need, and what we will seek to do.”⁴³

Ein barn

Argymhelliad 2:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid diwygio'r Bil er mwyn i'r Comisiwn allu ystyried newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol prif gynghorau wrth adolygu ffiniau cymuned.

Argymhelliad 3:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell, os yw'r Bil yn cael ei ddiwygio fel hyn, y dylid egluro yn y Bil pwy fyddai'n gyfrifol am wneud y newidiadau canlyniadol hynny.

Newid canlyniadol i ffiniau cymuned (Adran 29(6))

Cefndir

56. O dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 1972*, wrth gynnal adolygiadau etholiadol o brif ardaloedd, mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod y Comisiwn yn cael ei atal rhag cynnig adrannau etholiadol sydd o boptu i ffiniau cymuned. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod hyn yn llesteirio'r Comisiwn yn ei awydd i wneud cynigion sy'n sicrhau bod y gymhareb o gynghorwyr i etholwyr yn gyfartal. Fel y cyfryw, bydd y Comisiwn yn awr yn gallu cynnig newidiadau i ffiniau cymuned fel rhan o'r adolygiadau etholiadol hyn.

57. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn y Memorandwm Esboniadol y gallai caniatáu i'r Comisiwn newid ffiniau fel hyn fod yn bwnc dadleuol ymysg y cymunedau hynny yr effeithir arnynt, ond mai bwriad y gofyniad i ymgynghori a gallu Gweinidogion Cymru i wneud y penderfyniadau terfynol yw mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Tystiolaeth gan dystion

58. Pan ofynnwyd a oedd y Comisiwn yn fodlon â'r darpariaethau sy'n ei alluogi i gynnig newidiadau i ffiniau cymuned fel rhan o adolygiadau etholiadol o brif ardaloedd, dywedodd y Comisiwn:

⁴³ Cofnod y Trafodion, paragraff 22, 6 Chwefror 2013

“We see that it seeks to address a long-standing problem we have encountered when we have undertaken electoral reviews. We get suggestions for changes to an electoral division boundary in an electoral review, but we cannot consider them in the electoral review, because it would require a change to the community or the community ward boundary. That is because community and community wards are considered to be the building blocks for the electoral divisions.”⁴⁴

59. Aeth ymlaen i ddweud:

“We are of the view that the best forum for changing community and community wards is a review by the principal council. However, when we have undertaken an electoral review, it could be that it has been some time before such a review has taken place and issues have arisen with community and community wards boundaries, and developments may have taken place that span community boundaries; that occurs quite often. These can be addressed with this power within the electoral review.”⁴⁵

60. Pan ofynnwyd a allai caniatáu i’r Comisiwn newid ffiniau cymuned fel rhan o’r adolygiadau etholiadol fod yn bwnc dadleuol ac yn wrthun i gymunedau yr effeithir arnynt, dywedodd y Comisiwn:

“The Bill clearly sets out the requirements for the commission and local authorities regarding the operation of reviews... The commission would undertake this power carefully; we are aware of the controversy that it might cause and we would fully consult with the principal council and community councils. Only at that stage would we publish and allow people to comment on them, then take account of those comments. With those balances in place, we would then be confident to make a decision.”⁴⁶

61. Roedd gan Gymdeithas Cyngorau Tref a Chyngorau Cymuned Mwy Gogledd Cymru bryderon penodol pe bai’r cymunedau eu hunain yn anghytuno ynglŷn â’r newidiadau arfaethedig. Dywedodd:

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 82, 17 Ionawr 2013

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 83, 17 Ionawr 2013

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 86, 17 Ionawr 2013

“The Association strongly objects to any proposal which gives the ability of the Commission to propose electoral divisions which straddle communities except where the Town or Community Council and the Community are in agreement. The Association would like to see something in the Bill to cover this point.”⁴⁷

Tystiolaeth gan y Gweinidog

62. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn credu bod angen i gynghorau cymuned gytuno cyn gallu gwneud newidiadau i ffiniau cymuned fel rhan o adolygiadau etholiadol prif ardaloedd.

Ein barn

Yn dilyn adroddiad gan y Comisiwn, mae adran 37(3) yn nodi na chaniateir gwneud gorchymyn am chwe wythnos, sy'n rhoi cyfle i gynghorau cymuned gyflwyno eu sylwadau i'r Gweinidog. Rydym yn ystyried bod hynny'n ddigonol, ac yn fodlon â darpariaethau'r Bil yn y cyd-destun hwn.

Adolygu trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal (Amseriad adolygiadau Adrannau 29(3) a 29(7))

Cefndir

63. Mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol pob prif ardal o leiaf unwaith bob deng mlynedd, gan gael gwared ar y ffenestr 10-15 mlynedd ar gyfer cynnal yr adolygiadau hyn.

64. Mae adran 29(7) yn nodi na chaiff y Comisiwn gynnal unrhyw adolygiad o'r fath na gwneud argymhellion o fewn naw mis i etholiad cyngor cyffredin.

Tystiolaeth gan Dystion

65. Dywedodd y Comisiwn:

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, LGD 9

“...section 29 asks us to publish a programme of reviews over the 10-year period. We will do that; it is what we want to do.”⁴⁸

66. Pan ofynnwyd a oedd y rhaglen adolygu deng mlynedd yn ymarferol, dywedodd CLILC:

“as long as the commission plans appropriately well in advance, and engages and liaises with principal authorities and community councils well in advance so that they can plan, it should be feasible.”⁴⁹

67. Fodd bynnag, mynegodd y Comisiwn bryderon am ddechrau'r darpariaethau yn y Bil sy'n caniatáu i'r Comisiwn ddechrau ei raglen o adolygiadau; dywedodd:

“Mae'r Comisiwn o'r farn, o ystyried ei amserlen waith bresennol, y byddai dyddiad cychwyn cynharach nag 1 Mai 2014 yn fuddiol. Ystyriwn fod Medi 2013 (neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol) yn ddyddiad cychwyn priodol ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd.”⁵⁰

68. Ymhelaethwyd ar y pwynt hwn yn ei dystiolaeth lafar:

“We would like to get on with the work as early as possible. If we could start work this year, after Royal Assent in September, it would give us another period leading up to the election in 2017. The clock is against us all of the time. We have to maximise the time that we have available. We are keen to get on with the work, not that we are not doing any work at the minute. However, in terms of the Bill, we are keen to get into publishing the programme and getting all the infrastructure of the work in place.”⁵¹

69. O ran y darpariaethau o dan adran 29(7), teimlai'r Comisiwn fod peidio â chynnal adolygiad o fewn naw mis i etholiad cyngor cyffredin yn ormod.⁵²

70. Dywedodd y Comisiwn mewn tystiolaeth:

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 21, 17 Ionawr 2013

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 154, 17 Ionawr 2013

⁵⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 6

⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 77, 17 Ionawr 2013

⁵² Cofnod y Trafodion, paragraff 15, 17 Ionawr 2013

“there are risks here, namely that if we move towards the period of suspension before the elections, as discussed previously, then that leads to an uneven pattern of expenditure for the commission. We may have to adjust for these peak periods and fallow periods, which may mean that we will need temporary staff. So, there is an implicit risk, not only in terms of workload, but in the complement of the commission in order to undertake that work.”⁵³

71. Parhaodd y Comisiwn i amlinellu ei bryderon:

We recognise the sensitivities associated with the date of an election ... but we think it is more than 9 months ...when a council is elected it takes time to sort out its arrangements ...so, the nine months is not nine months when you talk about engaging authorities: it is longer than that because there is a spill-over period after the election.”⁵⁴

72. Pan ofynnwyd beth fyddai'n cael ei ystyried yn gyfnod rhesymol, awgrymodd y Comisiwn na fyddai'n cyhoeddi nac yn gweithredu ar ôl dyddiad hysbysu cyhoeddiad o etholiad.⁵⁵

73. Roedd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol yn fodlon â'r cyfnod naw mis, ond nid oedd ganddi bryderon ynglŷn â gwaith yn dal i fynd rhagddo yn y cefndir:

“Certainly, there should be an appropriate time period for any publication of reviews or proposals, and the nine-month period should be upheld for that. I am not privy to the detailed work that goes into a review on a day-to-day basis, but, if the boundary commission can give assurances that there is work that is not so public-facing and does not have an effect on an electoral campaign in any way, I would have no problem with the review bubbling away, as it were, over those nine months of the electoral period.”⁵⁶

⁵³ Cofnod y Trafodion, paragraff 123, 17 Ionawr 2013

⁵⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 15, 17 Ionawr 2013

⁵⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 17, 17 Ionawr 2013

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 267, 23 Ionawr 2013

Tystiolaeth gan y Gweinidog

74. O ran y cylch deng mlynedd o adolygiadau, dywedodd y Gweinidog:

“What we are trying to do with the commission is build a structure that it and we understand and, more importantly, that the principal councils and communities fully understand. We have included the time frame so that the commission can then provide a rolling programme rather than the big-bang effect of doing six at once and not being able to deliver on the six... The 10-year cycle fits in quite nicely given that it is around two terms of local government. We believe that that is probably the right time to start thinking about a local area. Fifteen years or beyond is probably too long a timeline.”⁵⁷

75. Mewn ymateb i bryderon y Comisiwn ynghylch y gallu i ddechrau cynnal yr adolygiadau, dywedodd y Gweinidog:

“I am supportive of that. We indicated a date of 2014 for implementation, however, I can understand why the commission would want to get under way in doing that. I would probably support that, actually. Providing that there are no show stoppers or disagreements in that process, I would be happy for the commission to start work as soon as possible. So, I will consider if there is a need to change any wording to make that timing appropriate. There is no reason for me to resist people wanting to get on with the job.”⁵⁸

76. Pan ofynnwyd a oedd y cyfyngiad naw mis ar gynnal adolygiadau yn ormod, dywedodd y Gweinidog fod angen cyfnod o sefydlogrwydd cyn etholiad a bod cyfnod o naw mis yn gyfnod rhesymol.⁵⁹

77. Gofynnwyd i'r Gweinidog:

“Is there a difference here between carrying out a review and publishing proposals? Is that distinction worth making—that

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 31, 9 Ionawr 2013

⁵⁸ ROP, paragraph 25, 6 February 2013

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 27, 6 Chwefror 2013

they can carry out the review in that nine-month period, but that they cannot publish proposals until after the election period is over?”⁶⁰

78. Ymatebodd y Gweinidog:

“I believe that that is what I would want to reflect. We need to strengthen that and it is something that we would consider.”⁶¹

Ein barn

Argymhelliad 4:

Mae'r Pwyllgor yn nodi pryderon y Comisiwn ynglŷn â hyd y tarfu ar ei waith a achosir gan gyfnod naw mis, ac yn argymhell diwygio Adran 29 y Bil i ddarparu ar gyfer cyfnod o chwe mis.

Argymhelliad 5:

Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r pwyntiau a godwyd gan y Comisiwn Ffiniau, ac yn argymhell diwygio adran 29 i ganiatáu i'r Comisiwn gychwyn ar ei waith cyn gynted â phosibl.

Argymhelliad 6:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell diwygio'r Bil i sicrhau bod eglurder rhwng cynnal adolygiad a chyhoeddi cynigion yr adolygiad hwnnw o ran yr hyn fyddai'n cael ei ganiatáu yn ystod y cyfnod a ddarperir ar ei gyfer yn adran 29.

Terminoleg (Adran 29(10))

Cefndir

79. Mae adran 29(10) yn cyflwyno terminoleg newydd yn y maes hwn. Bydd yr hyn a elwir ar hyn o bryd yn '*adrannau etholiadol*' (y cyfeirir atynt yn gyffredin hefyd fel '*wardiau*') yn cael eu galw'n '*ardaloedd etholiadol*' yn awr. Bydd yr hyn a elwir ar hyn o bryd yn '*adrannau etholiadol un aelod*' ac '*adrannau etholiadol amlaelod*' yn cael eu galw'n '*ardaloedd un aelod*' ac '*ardaloedd amlaelod*'.

Tystiolaeth gan dystion

⁶⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 33, 6 Chwefror 2013

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 34, 6 Chwefror 2013

80. Crybwyllodd sawl tyst fod y termau newydd sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn achosi dryswch.

81. Roedd y mwyafrif o dystion hefyd yn cydnabod bod '*adrannau etholiadol*' yn cael eu hadnabod yn gyffredin hefyd fel '*wardiau*'.

82. Dywedodd y Comisiwn:

"Yn y bôn, ni fydd yn effeithio ar waith y comisiwn, ond mae'n fater o ddealltwriaeth o'r enwau sy'n cael eu defnyddio. Er enghraifft, mae pobl yn cyfeirio at wardiau, ond, yn gyfreithiol, nid oes y fath beth ag ward yng Nghymru. Mae wardiau yn Lloegr, ond nid oes rhai yng Nghymru..... Os oes gennym un term sydd yn gyffredin i bawb, mae pawb yn gwybod am beth maent yn sôn."⁶²

83. Nid oedd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol yn credu y byddai newid enw isadran o brif awdurdod yn denu pobl o reidrwydd i ymwneud â'r broses ac y byddai'n debygol o achosi mwy o ddryswch. Dywedodd:

"The danger here is that we already use the two terms 'electoral divisions' and 'wards' interchangeably. If we add the word 'area' into the mix, we will be using three terms interchangeably. The particular danger with the word 'area' is that we already talk about such things as school catchment areas, and I think that, in the minds of citizens, it would become even more confusing, not less confusing."⁶³

84. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn cytuno:

"We understand that a change in terminology can cause confusion for everyone...It can also create a lot of work in terms of changing documentation, instructions et cetera...I can appreciate the need to want to modernise the language, but I think that one needs to be aware of how well things are currently understood with the old terminology and the effects that it could have in actually changing it."⁶⁴

⁶² Cofnod y Trafodion, paragraff 92, 17 Ionawr 2013

⁶³ Cofnod y Trafodion, paragraff 272, 23 Ionawr 2013

⁶⁴ Cofnod y Trafodion, paragraph 39, 31 Ionawr 2013

Tystiolaeth gan y Gweinidog

85. Dywedodd y Gweinidog:

“We have just tried to use a definition that people will understand. I do not think that there is anything in the wording that is complex”.⁶⁵

86. Roedd y Gweinidog yn cydnabod mai ‘*wardiau*’ yw’r prif derm a ddefnyddir o hyd.⁶⁶

Ein barn

Argymhelliad 7:

Nid yw’r Pwyllgor yn credu bod y newid terminoleg a nodir yn adran 29(10) yn ddefnyddiol. Mae’r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn ailystyried y newidiadau mewn terminoleg a gyflwynodd.

Prif ardaloedd a Chymunedau (Adrannau 30-33))

Cefndir

87. Mae adran 30 yn egluro bod yn rhaid i’r Comisiwn wneud ymdrech i sicrhau bod nifer yr etholwyr a gynrychiolir gan bob cynghorydd mewn prif gyngor mor agos â phosibl at fod yr un nifer wrth ystyried a ddylid gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i drefniadau etholiadol prif ardal. Dylid cydnabod hefyd yr angen i wneud cynigion sy’n gyson â’r angen i sicrhau bod gan ranbarthau etholiadol ffiniau cydnabyddedig a bod y cwlwm cymunedol yn cael ei barchu.

88. Mae adran 30(2)(a) yn nodi bod yn rhaid i’r Comisiwn ystyried unrhyw anghysondeb rhwng nifer y rhai ar y gofrestr etholiadol a nifer y rhai sy’n gymwys i bleidleisio wrth gynnal adolygiadau etholiadol. Mae darpariaeth debyg yn adran 33(5) o ran adolygiadau o drefniadau etholiadol cymunedau.

89. Yn yr un modd, mae adran 30(2)(b) yn nodi y dylai’r Comisiwn ystyried unrhyw newid tebygol yn nifer neu ddsbarthiad etholwyr

⁶⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 70, 6 Chwefror 2013

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 70, 6 Chwefror 2013

llywodraeth leol yn yr ardal yn y pum mlynedd ar ôl i unrhyw argymhelliad gael ei wneud.

Mae adrannau 31 i 33 yn darparu y gall prif gyngor gynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol cymuned ar ei liwt ei hun neu ar gais cyngor cymuned neu ar gais o leiaf 30 o etholwyr. Gall y Comisiwn hefyd gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol cymuned o dan amgylchiadau penodol.

Tystiolaeth gan dystion

90. Mae'r mwyafrif o dystion wedi croesawu'r eglurhad am glymau cymuned a chymarebau cynghorwyr i etholwyr yn adran 30.

91. Fodd bynnag, oherwydd bod adran 30 yn cyfeirio at 'sicrhau' bod y cymarebau cynghorwyr i etholwyr yn gyfartal, ond ei fod ond yn cyfeirio at 'gydnabod' bod y cwlwm cymunedol yn cael ei barchu, holodd Cymdeithas Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned Mwy Gogledd Cymru a oedd y Bil yn mynd yn ddigon pell:

“There is the fixation that there has been recently on the numbers of electors, which has taken precedence over local community needs. That has caused deep concern in communities that have been split up, and we do not believe that this [Bill] does anything to allay that fear [...]”⁶⁷

92. Aeth ymlaen:

“[The Bill] talks about the numbers and ensuring that they are roughly equal, and then it says that it will take into account—so, there are two different levels, as I read that, one is that it should be close to the numbers, and if it happens to fit with the community council, that is fine. I see a difficulty here in the sense that if a town and community council is being difficult, some view has to be taken at some point as to the right thing to do.”⁶⁸

93. Yn y cyfamser, roedd y Comisiwn yn bryderus y byddai'r materion ynghylch nifer yr etholwyr (adran 30(2)) yn arwain at anawsterau na ellir eu goresgyn iddo:

⁶⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 9, 23 Ionawr 2013

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 55, 23 Ionawr 2013

“Mae’n dod i lawr i wneud amcangyfrif o faint sy’n gymwys ac a ddylai fod ar y gofrestr, ond mae’n dod â lluo o gwestiynau sydd yn creu amwyster yn y data. Pan rydym yn gorfod dibynnu ar yr ystadegau hynny er mwyn creu wardiau cywir, mae’n creu anhawster nad oes modd ei ddatrys yn iawn. Mae’r Bil yn cyfeirio at ystadegau y gellir eu cyhoeddi. Nid ydym yn siŵr os yw’r ystadegau hynny ar gael neu a fyddant yn gyfredol..... Mae hyn ar ben gorfod amcangyfrif—efallai bod hyn yn fwy ystadegol—y boblogaeth ym mhen pum mlynedd, achos mae’n rhaid i ni amcangyfrif beth fydd poblogaeth cyngor yn y dyfodol. Mae hyn yn dod â ffactor sydd â chymaint o anawsterau fel nad ydym yn siŵr bod modd eu goresgyn drwy newid y Bil. Y ffordd galed rydym wedi ei hawgrymu yw y dylid tynnu’r ddwy adran hyn sy’n ymwneud â phrif gynghorau a chynghorau lleol allan o’r Bil achos rydym yn credu bod yr anawsterau ynghlwm â’r hyn y mae’r Bil yn ceisio ei gyflawni yn ormod i’w goresgyn.”⁶⁹

94. Roedd gan y Comisiwn farn gref ar y darpariaethau dan adrannau 31 i 33, gan ddatgan y dylai’r Bil gynnwys gofyniad i gysylltu adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardaloedd gydag adolygiadau cyfatebol o gymunedau.

“ ... byddai’n beth da pe bai gwaith y cyngor sir o adolygu cymunedau yn clymu i mewn i waith y comisiwn yn adolygu’r etholaethau sirol. Yr hyn rydym yn ei awgrymu yw hyn: pan fod rhaglen yr adolygiadau yn cael ei chyhoeddi bod pob cyngor sir yn gwybod ym mha flwyddyn y caiff ei adolygu, a bod pob sir yn ei dro, ddim mwy na phum mlynedd cyn yr adolygiad hwnnw, yn adolygu ei gymunedau ac yn dweud wrth y comisiwn beth mae’n mynd i’w wneud..... Ar hyn o bryd, nid yw’r cysylltiad hwnnw yn y Bil. Rydym yn meddwl y gallai’r Bil gael ei wella drwy wneud hynny. Bydd yn dod â llif gwaith y cyngor sir a’r comisiwn ynghyd mewn un darn o waith parhaol ac o fewn terfyn amser sy’n ddealladwy i’r cymunedau, y sir, y comisiwn ac, yn y pen draw, y Gweinidog wrth iddo ystyried yr argymhellion terfynol.”⁷⁰

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 89 a 90, 17 Ionawr 2013

⁷⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 94, 17 Ionawr 2013

95. Roedd Un Llais Cymru yn cytuno gyda'r Comisiwn. Dywedodd y byddai'n cymeradwyo bod angen cynnal adolygiadau cymuned cyn adolygiadau etholiadol⁷¹ a bod cyfle gwirioneddol yma i weithredu system o ymgynghori ac ymgysylltu rhwng y naill ochr a'r llall⁷².

Tystiolaeth gan y Gweinidog

96. O ran y cymarebau cynghorwyr i etholwyr a'r clymau cymuned, a phryderon Cymdeithas Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned Mwy Gogledd Cymru yn hyn o beth, dywedodd y Gweinidog:

“The Bill places the need to have regard for community ties on the face of this section, so it is not tucked away as it is in the 1972 Act, but is expressed more fundamentally.”⁷³

97. Pan ofynnwyd am gynigion y Comisiwn y dylid diddymu adran 32(2)(a) a 33(5) o'r Bil, dywedodd y Gweinidog:

I have wrangled with the duties of the commission and the Members, who are elected to constituencies that include university cities, will know in particular that there is a huge change in the dynamics of their communities, with a lot of student activity, which is often not reflected in the numbers on the electoral register. However, as a councillor, it is still their duty to represent them. I think it is reasonable to ask the commission to consider the number of electors on the electoral roll and the actual number in their community. I am giving the commission some flexibility; I do not think that it particularly likes that flexibility and would rather I tell it what to do in black and white. However, I am giving the commission the flexibility to make these observations and to therefore agree on that process in terms of the compromise between the two on what direction to take. So, we are trying to be reasonable on this.⁷⁴ ...

“Of course, I think that the commission would prefer, as would most people, a very prescriptive, ‘This is what I am requiring you to do’. Actually, I am asking the commission to take a true

⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 59, 23 Ionawr 2013

⁷² Cofnod y Trafodion, paragraff 59, 23 Ionawr 2013

⁷³ Cofnod y Trafodion, paragraff 40, 6 Chwefror 2013

⁷⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 40, 6 Chwefror 2013

value; these are the people who are out there looking at communities. It is reasonable to ask them to look at a true value of what the community is, so I do not agree with the commission's view."⁷⁵

98. Dywedodd y Gweinidog fod peth rhinwedd i'r awgrym y dylid cynnwys mecanwaith a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau gynnal adolygiadau cymuned cyn adolygiadau etholiadol yn eu hardaloedd, ond credai fod angen ei ystyried ymhellach. Dywedodd:

"There are some risks involved that, if we do some community reviews before a boundary review, you sort of pre-empt a decision by the boundary commission. There is some logic in it, but I think that we need to work that through. Again, I would not want the boundary commission community reviews to take place, changes happen, and then the boundary commission coming in, doing another review and change them completely again. It is a balancing act. I am not objecting to the principle of this, but I think that we need to give it some more thought about how that process may or may not work. They might work in conjunction with each other. I do not know."⁷⁶

Ein barn

Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r ystyriaethau a oedd yn ofynnol yn adran 30, o ran cymarebau cynghorwyr i etholwyr a chynnal clymau cymuned.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn fodlon â'r gofynion yn adrannau 30(2) a 33(5) sy'n ymwneud â'r angen i'r Comisiwn ystyried nifer yr etholwyr llywodraeth leol.

Argymhelliad 8:

Mae'r Pwyllgor yn credu bod barn y Comisiwn yn rhesymol ar adrannau 31 i 33. Felly, mae'r Pwyllgor yn argymhell diwygio'r Bil er mwyn iddo gynnwys mecanweithiau i gysylltu adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardaloedd ag adolygiadau o gymunedau.

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 48, 6 Chwefror 2013

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 77, 6 Chwefror 2013

Y weithdrefn ar gyfer adolygiadau (Adrannau 34-36)

Cefndir

99. Mae adrannau 34 i 36 yn manylu ar y gweithdrefnau y mae'n rhaid i'r Comisiwn neu brif gyngor eu dilyn wrth gynnal adolygiadau. Maent yn cynnwys gofynion i'r Comisiwn egluro ei fethodoleg a'i ddull, y gofynion ymgynghori, a'r hyn sydd angen digwydd cyn gweithredu unrhyw argymhellion.

Tystiolaeth gan dystion

100. Credai'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol nad oedd y Bil yn gwneud digon i annog y Comisiwn a phrif awdurdodau i ymgysylltu â'r cyhoedd wrth gynnal adolygiadau:

“[the Bill] could do more in terms of encouraging the participation of people in local politics...⁷⁷

“We think that more can be done on sections 34, 35 and 36 of the Bill—the sections on pre-review, consultation, investigation and reporting on the review—to encourage public engagement across those three sections...⁷⁸

“There does not seem to be an onus on the boundary commission to really go out and talk to people. There is an expectation that people will come to the boundary commission and talk to it.”⁷⁹

101. Roedd gan Gymdeithas Cyngorau Tref a Chyngorau Cymuned Mwy Gogledd Cymru bryderon am gyfranogiad cymunedau wrth gynnal adolygiadau. Dywedodd y dylai eu barn fod yn ystyriaeth berthnasol⁸⁰ ac y byddai hyn yn ei dro yn denu llawer mwy o gefnogaeth i unrhyw gynigion a gyflwynir o ran newidiadau i ffiniau.⁸¹

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 217, 23 Ionawr 2013

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 224, 23 Ionawr 2013

⁷⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 226, 23 Ionawr 2013

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 55, 23 Ionawr 2013

⁸¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LDG 9

102. Dywedodd Un Llais Cymru hefyd ei fod o blaid y gweithdrefnau ymgynghori cyhyd â bod cynghorau cymuned a thref yn cymryd rhan lawn ym mhob cam.

103. Roedd Un Llais Cymru hefyd am weld rhai darpariaethau ychwanegol yn y Bil mewn perthynas â'r hawl i gymunedau apelio ar ganlyniad adolygiadau llywodraeth leol:

“The reason for asking for the right of appeal within the Bill is that, if, for example, a community review was undertaken by a principal authority and the outcome appeared at face value to be the result of a flat-map exercise or based on just numerical figures, it would be appropriate for community and town councils to have some form of recourse to another body to say that they thought that insufficient weighting had been given to issues around community ties or that, perhaps, the history of that community or the identity of that community had been undermined in some way.”⁸²

Tystiolaeth gan y Gweinidog

104. Dywedodd y Gweinidog fod dyletswydd eisoes yn bodoli i ymgynghori, a'i fod yn amharod i gyhoeddi rhestri o'r bobl y dylid ymgynghori â hwy gan y gallai hyn arwain at eithrio rhai:

“The list of consultees that the boundary commission uses is wide-ranging, including, of course, members of communities. In addition, it is not about with whom, but more about how community engagement takes place. This is perhaps not for the Bill, but I might seek to issue some guidance to the commission about what I would expect in terms of community engagement. That might be helpful for addressing this some of the issues that the Electoral Reform Society raised.”⁸³

105. O ran yr hawl i apelio, dywedodd y Gweinidog fod yr hawl hwn eisoes yn bodoli:

“the community councils have an appeal process to the commission. If the commission is doing a review, then there is an appeals process to the Welsh Minister. There are appeals

⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff 69, 23 Ionawr 2013

⁸³ Cofnod y Trafodion, paragraff 84, 6 Chwefror 2013

processes, but you will recognise that you cannot always please the people involved in that process. What is really important is that there is an appeals process.”⁸⁴

Ein barn

Argymhelliad 9:

Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y cyfan gyda'r darpariaethau ymgysylltu y manylir yn eu cylch yn adrannau 34-36. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi'r darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi fersiynau electronig o'r adroddiadau. Mae'r Pwyllgor yn argymhell eu bod yn cael eu diwygio i egluro bod fersiynau copi caled o adroddiadau hefyd ar gael ar gais.

Argymhelliad 10:

Mae'r Pwyllgor yn nodi barn y Gweinidog bod dyletswydd yn bodoli eisoes i ymgynghori. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn argymhell fod y Gweinidog yn cyhoeddi canllawiau i'r Comisiwn ar arferion gorau ar ymgysylltu â'r cyhoedd.

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 91, 6 Chwefror 2013

6. Rhan 4 – Adolygiadau o aelodaeth cyrff cyhoeddus

Adolygiadau o gyrff cyhoeddus cymwys (Adran 50)

Cefndir

106. Mae adran 50 yn diwygio cylch gwaith y Comisiwn i allu adolygu a gwneud cynigion am gyfansoddiad cyrff cyhoeddus ychwanegol (ar wahân i gynghorau) y mae eu cyfansoddiad yn cynnwys cynghorwyr neu unigolion a benodir gan gynghorau.

Tystiolaeth gan dystion

107. Roedd y Comisiwn yn bryderus am y diffyg manylion a oedd ar gael yn hyn o beth, gan nodi bod y cynnig hwn yn ‘agored iawn ac yn amodol ar unrhyw gyfarwyddiadau y gall Gweinidogion Cymru benderfynu eu gwneud’.⁸⁵

108. Parhaodd y Comisiwn i awgrymu:

“ei bod yn ofynnol cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru i greu canllawiau a fydd yn galluogi rhoi’r darpariaethau hyn ar waith er budd tryloywder a dealltwriaeth y cyrff yr effeithir arnynt.”⁸⁶

109. Roedd gan CLILC bryderon am allu’r Comisiwn yn y cyd-destun hwn:

“We do not yet know the scope of what the commission might be expected to do ... I think that section 50(3) states that the commission would not just look at the number of members on a public body, but that it would look at things like skills, attributes and so on. In principle, that is fine, but if it is looking at the membership of a local health board, would the boundary commission have the expertise and capacity to determine what skills a health board might need?”⁸⁷

⁸⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 6

⁸⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 6

⁸⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 175, 17 Ionawr 2013

Tystiolaeth gan y Gweinidog

110. Pan ofynnwyd am y canfyddiad bod adran 50 yn ymddangos fel pe bai'n agored ac nad oedd digon o fanylion ynddo, dywedodd y Gweinidog:

“We have added this section as a sort of future proofing tool for what we believe the commission might or might not do in the future. I do not have a list of bodies and organisations that I would suggest the commission now goes out to and says, ‘Have a look at this organisation because we are looking to restructure it in some way, to grow or reduce the number’. Therefore, I cannot give clarity of definition on ‘bodies’. Again, the example that I would use is that, recently, John Griffiths’s new single organisation has a new structure, so we would not have seen that coming. It is something new that has been created, and we need the open-endedness within the Bill to comply with that.”⁸⁸

111. O ran y pryderon mewn perthynas â gallu, dywedodd y Comisiwn wrth y Gweinidog:

“With regard to the expertise of the commission, I would disagree with the idea that it does not have the expertise to look at numbers and functions of organisations. That is what it does. It counts numbers and it looks at structures and democratic representation and processes. You could argue the same about some things that the remuneration board does. If it is a public body, it is reasonable for an independent organisation such as the commission to look at the make-up of that body, such as the commission. I do not really accept the point about the skill base of the commission. I think it is completely reasonable for it to be asked to do that.”⁸⁹

Ein barn

Argymhelliad 11:

Mae'r Pwyllgor yn fodlon mewn egwyddor â'r cynnig sydd wedi'i gynnwys yn adran 50. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn argymhell

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 98, 6 Chwefror 2013

⁸⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 99, 6 Chwefror 2013

cynnwys rhestr yn y Bil o gyrff a allai fod yn destun cyfarwyddyd dan adran 50, a dylid ychwanegu darpariaeth at y Bil a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu cyrff at y rhestr honno, gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol.

Argymghelliad 12:

Os nad yw'r Gweinidog am gyflwyno diwygiad i weithredu Argymghelliad 11, byddai'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn edrych o'r newydd ar eiriad yr adran hon i weld a ellir datrys rhai o bryderon y Comisiwn am eglurder. Yn benodol, dylid ailystyried y cyfeiriad at 'arfer swyddogaethau' yn isadran 5(c) i sicrhau bod cyrff newydd (fel Cyfoeth Naturiol Cymru y cyfeirir ato gan y Gweinidog) a gynigir i arfer swyddogaethau wedi'u cynnwys yn glir.

7. Rhan 5 – Newidiadau eraill i Lywodraeth Leol

Aelodau llywyddol prif gynghorau (Adran 51)

Cefndir

112. Mae adran 51 yn diwygio *Deddf Llywodraeth Leol 1972* er mwyn i gynghorau allu penderfynu penodi “aelod llywyddol” i lywyddu cyfarfodydd cyngor tra’n galluogi i’r Cadeirydd/Maer/Arglwydd Faer barhau i gynnal swyddogaethau defodol a dinesig.

Tystiolaeth gan dystion

113. Er bod y mwyafrif o dystion o blaid y cynnig hwn, mynegwyd rhai pryderon.

114. Mynegodd Cymdeithas Ysgrifenyddion a Chyfreithwyr Cynghorau, Cangen Cymru (“ACSeS”) bryderon am rôl y cadeirydd/aelod llywyddol ar ôl etholiad.

115. Dywedodd:

“Yr un peth sydd ar goll yn y Bil yw ymestyn tymor aelod llywyddol y tu hwnt i etholiad llywodraeth leol. Ar hyn o bryd, fel yr ydych yn gwybod, mae cadeirydd cyngor yn parhau i fod yn gadeirydd ar gyfer cyfarfod y cyngor yn dilyn etholiad, hyd yn oed os ydyw wedi colli ei sêd yn yr etholiad neu heb sefyll yn yr etholiad. Caiff fynd i’r cyfarfod cyntaf er mwyn llywyddu yn y cyfarfod hwnnw. Mae’n hanfodol, yn ein tyb ni, fod yr aelod llywyddol hefyd yn cael yr hawl i wneud hynny.”⁹⁰

116. Roedd CLILC o blaid y rhan hon o’r Bil, ond roeddynt yn cytuno â’r pwyntiau a godwyd gan ACSeS fod angen aildrafftio parthed y mater pwy ddylai gadeirio’r cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad.⁹¹

117. Mewn tystiolaeth i’r Pwyllgor, dywedodd Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol (“IRP”):

⁹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 207, 17 Ionawr 2013

⁹¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 7

“We agree with the proposal to recognise the role of Presiding member as this has been raised with us in respect of the payment of a senior salary for such individuals.”⁹²

118. Ymatebodd Cyngor Caerdydd i ymgynghoriad y Pwyllgor, gan ddweud ei fod yn awyddus i rannu’r rolau hynny, a’i fod wedi cymryd camau i wneud hynny.⁹³

119. O ran taliadau ar gyfer rhannu’r rolau, mynegodd ACSeS bryder pellach “ynglŷn ag a yw’r aelod llywyddol a’r cadeirydd ill dau yn mynd i dderbyn uwch-gyflog, ac a fydd hynny felly yn cyfyngu ar faint o uwch-gyflogau a fydd ar gael i weddill y swyddi o fewn y cyngor”.⁹⁴

120. Yn ystod tystiolaeth, nodwyd bod nifer yr uwch-gyflogau y mae’n rhaid i awdurdod eu talu yn cael ei bennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, er y gall awdurdod ofyn am oddefeb arbennig i gynyddu’r nifer hwnnw os yw’n teimlo bod swydd yn haeddu cyflog uwch. Roedd CLILC yn cytuno y gallai awdurdod wneud cais am uwch-gyflogau ychwanegol, ond nododd:

“However, if this was enacted, the independent remuneration panel would certainly review its current scheme of allowances and salaries. Previously, in practice, it has been quite restrictive and strict about the number of senior salaries being awarded. So, it would be a matter for the independent remuneration panel to decide whether this counted as an extra one to add to the 20 or whether councils would have to find this salary within the existing number. So, it has the potential to increase allowances, but I would imagine that, given the current practices, the remuneration panel would keep it fairly constrained.”⁹⁵

Tystiolaeth gan y Gweinidog

121. O ran rôl y cadeirydd/aelod llywyddol ar ôl etholiad, dywedodd y Gweinidog:

⁹² Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 17

⁹³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 39

⁹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 188, 17 Ionawr 2013

⁹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 193, 17 Ionawr 2013

“the 1972 Act currently allows that very process to happen, so that the mayor or mayoress can come back in a civic role in this process to hand over, whether in an elected or non-elected post, or following non-election or retirement. It allows that to happen, and that will continue to happen.”⁹⁶

122. Credai'r Gweinidog nad oedd angen unrhyw ddiwygiadau mewn perthynas â'r broses drosglwyddo, ond roedd yn hyblyg.⁹⁷

123. Er na holwyd y Gweinidog yn benodol am y taliadau y gellid eu gwneud wrth rannu rôl lywyddol/faerol, nodir yn y Memorandwm Esboniadol na fydd unrhyw gostau cysylltiedig gyda'r pwerau hyn, gan mai Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a fyddai'n penderfynu ar unrhyw gyflogau ac y byddent yn cael eu rheoli o gyllideb y cyngor perthnasol.

Ein barn

Ar y cyfan, ystyriwyd bod darparu ar gyfer aelod llywyddol yn syniad da, o ystyried y sgiliau gwahanol iawn sy'n ofynnol i gadeirio cyfarfodydd cyngor o gymharu â'r rhai sydd eu hangen ar gyfer rolau ffurfiol a chynrychioliadol.

Fodd bynnag, nid oedd lleiafrif o'r Aelodau wedi'u hargyhoeddi y gellid cyfiawnhau hyn heb ddarpariaeth bellach yn y Bil, mewn perthynas ag uwch-gyflogau ychwanegol.

Argymhelliad 13:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell diwygio'r Bil i ymestyn swydd aelod llywyddol i gynnwys y cyfarfod cyngor cyntaf ar ôl etholiad.

Mynediad at wybodaeth (Adrannau 53-55)

Cefndir

124. Mae adran 53 yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned gyhoeddi gwybodaeth benodol yn electronig, gan gynnwys manylion aelodaeth, busnes a chyswllt y cyngor.

⁹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 101, 6 Chwefror 2013

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 102, 6 Chwefror 2013

125. Mae adran 54 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gyhoeddi hysbysiadau cyhoeddus yn electronig.

126. Mae adran 55 yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned gyhoeddi agendâu ac adroddiadau cyhoeddus ar gyfer cyfarfodydd sydd i ddod yn electronig.

Tystiolaeth gan dystion

127. Roedd CLILC ac IRP o blaid y cynigion. Dywedodd IRP:

“Community and town councils are important public bodies with a crucial role in community cohesion and should be using modern communication methods to function efficiently.”⁹⁸

128. Credai Swyddfa Archwilio Cymru y ‘byddai deddfwriaeth yn fodd realistig o gyflymu’r ddarpariaeth a fyddai o gymorth wrth hybu ymgysylltu â’r cyhoedd.’⁹⁹

129. Fodd bynnag, credai Swyddfa Archwilio Cymru y dylai’r Bil fod yn fwy eglur o ran ei fwriadau mewn perthynas â mynediad at wybodaeth. Dywedodd:

“Dylai’r cwmpas ar gyfer rhannu darpariaeth gwefan fod o gymorth i alluogi dull economaidd o gyfathrebu, er gallai fod o help pe bai darpariaethau yn gwneud hyn yn fwy eglur drwy gyfeirio ato’n bendant. Gallai rhai gasglu o deitl yr adran “gwefannau cynghorau cymuned” fod rhaid i gynghorau unigol gynnal a chadw eu gwefan eu hunain. Gall “Darpariaeth gwybodaeth yn electronig gan gynghorau cymuned” fod yn deitl gwell”.¹⁰⁰

130. Er bod Un Llais Cymru a Chymdeithas Gogledd Cymru o blaid yr angen i gynghorau tref a chymuned gyhoeddi gwybodaeth yn electronig, roedd y ddau sefydliad yn bryderus am y goblygiadau o ran adnoddau, gan gynnwys gallu, arbenigedd, hyfforddiant a chyllid.

131. Galwodd Un Llais Cymru a Chymdeithas Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned Mwy Gogledd Cymru am i grantiau gael eu

⁹⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 17

⁹⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 16

¹⁰⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 16

darparu ar gyfer hyn. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Un Llais Cymru:

“One Voice Wales considers that the Bill should allow for specific grant support be provided to all community and town councils in Wales to cater for the requirements to provide electronic access to information and should account for 80% of the resources to deliver information electronically. This would place the sector on an equal footing with other public service providers who receive revenue support to facilitate this element of the democratic process.”¹⁰¹

132. Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, cytunodd Cyngor Cymuned Llanarthne,¹⁰² Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon¹⁰³ a Chyngor Tref y Barri¹⁰⁴ gyda barn Un Llais Cymru ar gyllid grant.

133. Cyfeiriodd Cymdeithas Cyngorau Tref a Chyngorau Cymuned Mwy Gogledd Cymru ato fel amharodrwydd diwylliannol ‘enfawr’¹⁰⁵ mewn rhai cyngorau, gan ddweud ei bod yn debygol na fyddai llawer o gynghorau’n cydymffurfio â’r ymrwymadau yn y Bil heb gyllid ychwanegol.

134. Ar 29 Ionawr 2013, datgelodd datganiad i’r wasg a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru y byddai £1.25 miliwn yn cael ei ddefnyddio ‘i ddatblygu mesurau fel darlledu cyfarfodydd y cyngor sir a gwella’r amrywiaeth o wybodaeth sydd ar gael i’r cyhoedd am eu cyngor tref neu gyngor cymuned’. Mae’r datganiad i’r wasg yn nodi:

“Hefyd, mae’r Gweinidog wedi annog prif gynghorau i weithio gyda’u cynghorau cymuned lleol i roi’r wybodaeth i’r cyhoedd am eu cyngor lleol. Bydd hyn yn ofynnol gan y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) sy’n cael ei ystyried gan y Cynulliad ar hyn o bryd.”¹⁰⁶

135. Ni ddarparwyd dadansoddiad neu fanylion sut y byddai’r £1.25 miliwn yn cael ei wario yn natganiad swyddogol Llywodraeth Cymru i’r

¹⁰¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 11

¹⁰² Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 22

¹⁰³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 24

¹⁰⁴ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 29

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 129, 23 Ionawr 2013

¹⁰⁶ Llywodraeth Cymru, [Gweinidog yn cyhoeddi £1.25 miliwn i wella Democratiaeth mewn Cynghorau](#), 29 Ionawr 2013

wasg. Fodd bynnag, mae erthygl Wales Online¹⁰⁷ am y cyhoeddiad hwn yn awgrymu y bydd cyfanswm o £375,000 yn cael ei neilltuo ar gyfer helpu i ddatblygu gwefannau cynghorau cymuned.

136. Cododd Cyngor Tref Pontardawe y pwnc o a ddylai gwefannau fod yn ddwyieithog:

“cost of translation to comply with the Welsh Language schemes may be considerable and will require additional funding.”¹⁰⁸

Tystiolaeth gan y Gweinidog

137. Pan ofynnwyd am y ddarpariaeth cyllid y cyfeirir ati yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru, dywedodd y Gweinidog y bydd pob cyngor yn derbyn £500 ym mhob ardal awdurdod unedol, a fydd yn mynd i'r prif gyngor. Bydd amodau'n seiliedig ar y disgwyliad i gyflawni ar sail y grant.¹⁰⁹

138. Holwyd y Gweinidog a oedd wedi ystyried diwygio'r Bil er mwyn i Weinidogion Cymru allu ychwanegu at y rhestr o'r hyn a oedd yn ofynnol ar wefan, yn ôl y rheoliadau. Dywedodd y Gweinidog y byddai hyn yn rhywbeth y byddai'n ei ystyried.

139. Pan ofynnwyd iddo a fydd yn ofynnol i wefannau fod yn ddwyieithog, dywedodd y Gweinidog:

“That is a matter for them and the Welsh Language Commissioner. Community councils are listed in Schedule 6 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011. Therefore, the Welsh Language Commissioner is able to issue a section 7 notice, I think, to community councils if the commissioner—she currently—wishes to do so.”¹¹⁰

¹⁰⁷ <http://www.walesonline.co.uk/news/welsh-politics/welsh-politics-news/2013/01/29/1-25m-to-help-councils-improve-local-democracy-and-public-engagement-91466-32698695/#ixzz2JM9BVOaH> fel ar 25/02/2013

¹⁰⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 28

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion, paragraph 114, Chwefror 2013

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 139, 6 Chwefror 2013

Ein barn

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon a godwyd ynghylch cyllido'r adran hon o'r Bil, ac yn gobeithio y bydd cyhoeddiad y Gweinidog ar 29 Ionawr 2013 ar gyllid yn cynorthwyo yn hyn o beth.

Argymhelliad 14:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell diwygio adran 53 o'r Bil i gynnwys:

- **gofyniad i gyhoeddi'r gofrestr o fuddiannau Aelodau ar-lein;**
- **dyletswydd ar brif gynghorau i fod yn ddarostyngedig i'r un ymrwymadau cyhoeddi â chynghorau tref a chymuned;**
- **pŵer i Weinidogion Cymru allu ychwanegu eitemau at y rhestr yn adran 53(1).**

Argymhelliad 15:

Mae'r Pwyllgor yn nodi sylwadau'r Gweinidog fod cynghorau cymuned a thref yn cael eu rhestru o dan Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac y gallant o bosibl fod yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg pan ddaw'r system i rym. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog barhau i adolygu'r goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer cynghorau cymuned a thref i ddarparu gwybodaeth yn ddwyieithog o dan adrannau 53-55 os mai dyna a fydd yn digwydd.

Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd y cyllid a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ar 29 Ionawr 2013 hefyd yn cael ei ddefnyddio tuag at ddarlledu cyfarfodydd cynghorau sir. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid cymryd camau i ddarlledu cyfarfodydd o'r fath cyn gynted â phosibl.

Gwasanaethau democrataidd (Adran 56)

Cefndir

140. Mae adran 56 yn diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 er mwyn ehangu cwmpas pwyllgor gwasanaethau democrataidd fel y gall, ar gais yr awdurdod, adolygu unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r cymorth a'r cyngor sydd ar gael i'r aelodau etholedig a'u telerau ac amodau.

Tystiolaeth gan dystion

141. Dywedodd CLILC ei bod o blaid y newidiadau i Fesur 2011 yn y cyd-destun hwn.¹¹¹

142. Roedd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol hefyd o blaid bwriad y Bil i ddiddymu'r ddarpariaeth sy'n llesteirio Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd rhag cyflawni [swyddogaethau] nad ydynt wedi'u cynnwys ym Mesur Llywodraeth Leol 2011.¹¹²

143. Fodd bynnag, yn y cyd-destun hwn, dywedodd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol eu bod yn teimlo nad oedd y Bil yn mynd yn ddigon pell i wella effeithiolrwydd democratiaeth leol yng Nghymru, yn enwedig o ran yr adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo'r meinciau cefn ac aelodau'r gwrthbleidiau gyda'u swyddogaethau craffu mewn cynghorau. Dywedodd y gellid fod wedi defnyddio'r Bil hwn ymhellach i gryfhau'r swyddogaethau hynny:

“we are of the view that the draft legislation could have been more ambitious; and that taken together the measures do not provide a Bill that will ‘ensure local authorities are democratically representative of their communities, are organized in the most effective way and communicate well with the public’.”¹¹³

Tystiolaeth gan y Gweinidog

144. Roedd y Gweinidog yn cydnabod yn ei dystiolaeth nad oedd llawer o wybodaeth y gallai aelodau'r cyngor nad oedd yn rhan o'r Cabinet gael mynediad ati.¹¹⁴

145. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog fod gweithrediad a swyddogaeth cymorth y meinciau cefn a'r gwrthbleidiau yn fater i awdurdodau lleol. Dywedodd fod Mesur 2011 wedi rhoi system ar waith y gobeithiai a fyddai'n gweithio, ac nad ei rôl ef yw meicro-reoli awdurdodau lleol. Ychwanegodd mai cyfrifoldeb aelodau meinciau cefn awdurdod lleol yw sicrhau eu bod yn defnyddio'r darpariaethau.¹¹⁵

¹¹¹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 8

¹¹² Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 10

¹¹³ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 10

¹¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 143, 6 Chwefror 2013

¹¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 148, 6 Chwefror 2013

Ein barn

Argymhelliad 16:

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth ac yn nodi y gall pwyllgorau gwasanaethau democrataidd ond adolygu'r cymorth sydd ar gael i aelodau 'ar gais yr awdurdod'. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid diwygio'r Bil fel y gall y pwyllgor gwasanaethau democrataidd gynnal adolygiadau o'r fath ar gais 10% o aelodau'r cyngor yn hytrach na'i fod ond yn gallu digwydd ar gais yr awdurdod.

Pwyllgorau archwilio (Adran 57)

Cefndir

146. Mae adran 57 yn diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, er mwyn darparu bod pwyllgor archwilio awdurdod lleol yn un y mae rheolau cydbwysedd gwleidyddol yn gymwys iddo.

147. Mae canllawiau a gyhoeddwyd o dan Fesur 2011 yn nodi y dylai aelodaeth cynghorwyr o bwyllgor archwilio pob cyngor adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod hwnnw, ond nid yw hyn yn ofyniad statudol. Mae'r Bil yn diwygio hyn ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgorau archwilio hyn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol.

Tystiolaeth gan dystion

148. Roedd y mwyafrif o dystion a roddodd sylwadau ar yr adran hon o blaid y newidiadau.

149. Er eu bod o blaid y darpariaethau ar gyfer pwyllgorau archwilio, awgrymodd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol y gellid gwella'r Bil drwy gryfhau'r gweithdrefnau cyffredinol sy'n ymwneud â phwyllgorau craffu awdurdod lleol.¹¹⁶

150. Yn benodol, er y gofyniad i benodi cadeiryddion pwyllgorau craffu ar sail cydbwysedd gwleidyddol, awgrymodd y Gymdeithas Diwygio Etholiadol fod swyddogaeth graffu sawl awdurdod yn cael ei gwanhau gan y ffaith bod llawer o awdurdodau'n penderfynu cael ychydig iawn o bwyllgorau craffu yn y lle cyntaf:

“The 2011 Measure states that chairs of scrutiny committees should be allocated according to party balance. When we have looked at some of the detail, we have seen that some authorities are quite canny at getting around the spirit of that Measure.”¹¹⁷

Tystiolaeth gan y Gweinidog

151. Dywedodd y Gweinidog nad oedd y mater o bwyllgorau craffu yn fater i'r Bil hwn.

¹¹⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 10

¹¹⁷ Cofnod y Trafodion, Paragraff 313, 23 Ionawr 2013

Ein barn

Argymhelliad 17:

Mae'r Pwyllgor o blaid y cynnig yn y Bil ond yn argymhell bod y Gweinidog yn ystyried a oes angen camau pellach i hyrwyddo cydbwysedd a gwaith craffu pwyllgorau cyngor.

Awdurdodau perthnasol (Taliadau i aelodau cyrff cyhoeddus eraill – Adran 59)

Cefndir

152. Mae adran 59 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru ychwanegu at y cyrff cyhoeddus (ynghyd â chynghorau ac ati) lle bydd IRP yn gallu pennu taliadau i aelodau, cyhyd â bod eu haelodaeth yn cynnwys aelod o awdurdod perthnasol (awdurdod lleol, cyngor cymuned, awdurdod parc cenedlaethol neu awdurdod tân ac achub).

Tystiolaeth gan dystion

153. Mae IRP yn credu bod manteision i'r cynnig hwn, ond bod y gofyniad i'r corff cyhoeddus gael o leiaf un aelod o awdurdod perthnasol yn ymddangos yn rhwystrol. Gallai hefyd arwain at anghysondebau wrth ei roi ar waith a fyddai'n anodd eu cyfiawnhau i'r cyhoedd.¹¹⁸

Tystiolaeth gan y Gweinidog

154. Dywedodd y Gweinidog:

“That is about openness. If we have local authority members serving on a public body, it is completely reasonable that the public is able to see the process and scrutinise it; that does not happen at the moment. I suppose that you could compare it with the fire authorities, where the Independent Remuneration Panel made judgements on their remuneration. You say that having one member of an authority may be restrictive, but one is enough to ensure that the IRP can look at the matter. It is a reasonable request.”¹¹⁹

¹¹⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 17

¹¹⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 157, 6 Chwefror 2013

Ein barn

Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r darpariaethau yn adran 59 y Bil a fydd yn galluogi Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i adolygu taliadau i aelodau eraill o gyrff cyhoeddus.

Adroddiadau blynyddol (Amseriad adroddiadau – Adrannau 60-62)

Cefndir

155. Mae'r Bil yn llacio darpariaethau ym Mesur 2011 sy'n ymwneud â'r ffordd y mae IRP yn gweithredu. Mae un o'r newidiadau'n cynnwys darpariaeth newydd sy'n dweud na fydd angen cyhoeddi'r adroddiadau blynyddol sy'n nodi cydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr ar gyfer y flwyddyn tan 28 Chwefror, yn hytrach na 31 Rhagfyr fel ar hyn o bryd.

Tystiolaeth gan dystion

156. Roedd gan CLILC ac ACSeS bryderon penodol am sut mae adroddiadau blynyddol IRP yn gysylltiedig â threfniadau cynllunio ariannol cyngor.

157. Fel yr eglurodd ACSeS:

“Mae cylch cynllunio ariannol cyngor yn golygu bod cynigion yn dechrau cael eu ffurfio o gwmpas mis Rhagfyr, unwaith mae gwybodaeth ariannol wedi dod o'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Mae'r dreth a'r gyllideb yn cael eu gosod oddeutu diwedd mis Chwefror neu ddechrau mis Mawrth. Mae'r gyllideb honno yn berthnasol am y cyfnod o 1 Ebrill ymlaen. Os nad yw'r panel annibynnol yn cyhoeddi ei adroddiad tan ddiwedd mis Chwefror, mae hynny'n rhy hwyr i ddal y cylch cynllunio cyllidol hwnnw..... Fodd bynnag, pe byddai adroddiad y panel yn golygu bod cynnydd sylweddol yn y taliadau sy'n cael eu gwneud i aelodau, byddai angen i'r cyngor fod wedi bod yn ymwybodol o hynny ymhell cyn diwedd mis Chwefror er mwyn medru cynllunio'r gwariant yn ei gyllideb, a chanfod o le y byddai'n cael yr arian. Felly, yn fras iawn, hwnnw yw'r pryder..... Rydym yn awgrymu ein bod yn cadw at y dyddiad o

ddiwedd mis Rhagfyr ar gyfer cyhoeddi adroddiad, yn hytrach na diwedd mis Chwefror.”¹²⁰

Tystiolaeth gan y Gweinidog

158. Dywedodd y Gweinidog:

“If you look at the allowances for Members, which the independent remuneration panel instructs on, it is a very small amount of the financial aspect of a local authority. There are issues around the consultation process. That is why the timeline of this is quite tight. I could tighten that a little more, but it will be weeks as opposed to months in difference. I do not think that this is a major practical issue. In terms of the overall settlement of a local authority, the amount of funding available for Members’ allowances is small.”¹²¹

Ein barn

Argymhelliad 18:

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dystiolaeth ac yn credu y dylai Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol barhau i gyhoeddi ei adroddiad blynyddol ar ddiwedd mis Rhagfyr. Felly, mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid diwygio'r Bil i adlewyrchu hyn. Mae'r Pwyllgor yn credu y bydd hyn yn darparu eglurder pan fo cynghorau'n llunio eu cynlluniau ariannol ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Cyd-bwylllograu safonau (Adran 63)

Cefndir

159. Mae *Deddf Llywodraeth Leol 2000* yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod perthnasol sefydlu pwyllgor safonau i gynnal safonau ymddygiad ymysg ei aelodau a monitro materion sy'n ymwneud â chod ymddygiad yr awdurdod. Mae'r Bil yn hwyluso sefydliad cyd-bwyllgorau safonau rhwng awdurdodau.

¹²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 239, 17 Ionawr 2013

¹²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 153, 6 Chwefror 2013

Tystiolaeth gan dystion

160. Credai Ombwdsmon Cyhoeddus Cymru (“Ombwdsmon”) y byddai sefydlu cyd-bwyllgorau safonau’n datrys rhai o’i bryderon, gan gynnwys;

- problemau wrth sefydlu pwyllgorau annibynnol addas;
- ni elwir ar rai pwyllgorau safonau’n aml i ystyried cwynion ac felly nid oes ganddynt yr arbenigedd angenrheidiol yn y maes hwn;
- yn yr un modd, nid yw rhai awdurdodau’n credu bod angen sefydlu pwyllgorau safonau ac felly nid ydynt yn gorfod cyfarfod yn aml.

161. Dywedodd CLILC ac ACSeS eu bod o blaid y cynnig ond eu bod yn glir o’r farn y dylai hyn fod yn opsiwn yn unig i awdurdod ac na ddylai fod yn ofyniad a fyddai’n cael ei orfodi ar gynghorau.

162. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd ACSeS y byddai’n:

“...croesawu pwr clir *ychwanegol* i awdurdod gyfeirio mater i bwyllgor safonau awdurdod arall mewn achosion lle cyfyd anhawster i’r pwyllgor safonau “cartref” ymdrin â’r achos”.¹²²

163. Mae’r Ombwdsmon yn cytuno y dylai awdurdodau allu cyfeirio achosion at bwyllgor safonau awdurdod arall. Fodd bynnag, os nad hyn oedd yr achos, awgrymodd y dylai sefydlu cyd-bwyllgorau safonau fod yn ofyniad yn y Bil, er mwyn datrys rhai o’r problemau y mae wedi’u canfod gyda’r ffordd y cânt eu gweithredu.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

164. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn ystyried y mater o ganiatáu cyfeirio at gyd-bwyllgor safonau awdurdod arall ac nad oedd y Bil yn gwneud digon o bisibl i wneud hyn yn bosibl.¹²³

165. Dywedodd y Gweinidog hefyd:

¹²² Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 7

¹²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 176, 6 Chwefror 2013

“I am considering that we may be able to present regional standards boards, which may resolve all of the issues.”¹²⁴

Ein barn

Argymhelliad 19:

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid diwygio'r Bil i sicrhau bod darpariaeth sy'n caniatáu i un awdurdod gyfeirio mater safonau at sylw Pwyllgor Safonau awdurdod arall os pennir ei bod yn amhriodol i bwyllgor arall ei ystyried. Os yw'r Gweinidog yn penderfynu gwneud cyd-bwyllgorau safonau'n orfodol yn hytrach na dewisol, gallai'r pŵer trosglwyddo fod yn berthnasol o hyd, hyd nes y sefydlir cyd-bwyllgorau.

Cychwyn - (Adran 69)

Cefndir

166. Mae adran 69 yn cynnwys y darpariaethau cychwyn ar gyfer y Bil.

Tystiolaeth gan dystion

167. Crybwyllwyd y mater o ddarpariaethau cychwyn o ran Adrannau 2 a 3, lle mae'r darpariaethau o dan yr adrannau hynny'n dod i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis ar ôl i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol.

168. Cododd CLILC fater adolygiadau cymuned:

“community reviews are due to be received by the Commission by July 2015 and, given 2013 is a non-election year, some authorities are planning to undertake community reviews shortly. However, the Bill's Commencement Provisions (S69) state that the parts of the Bill relating to Community Reviews will be commenced 2 months following Royal Assent. There is a concern therefore that community reviews already commenced or concluded (yet not formally implemented or approved) which were undertaken under current guidance and legislation may be affected by the new provisions under the Bill (particularly the issuing of the Commission's guidance on community reviews). It is therefore suggested that the Bill only applies to

¹²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 177, 6 Chwefror 2013

Community Reviews which are commenced after the Bill has been introduced. The Commission believed the Bill should commence as soon as possible after Royal Assent.”¹²⁵

169. Mewn tystiolaeth atodol a ddarparwyd gan CLILC, dywedodd:

“The Welsh Government has however reassured the WLGA that the Bill’s powers would only apply to reviews started after the Bill was commenced.”¹²⁶

Ein barn

Mae’r Pwyllgor yn fodlon â’r sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i CLILC y byddai pwerau’r Bil yn berthnasol dim ond i adolygiadau cymuned sy’n dechrau ar ôl dyddiad cychwyn y Bil

¹²⁵ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 8

¹²⁶ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 8b

8. Goblygiadau Ariannol

Cefndir

170. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan:

“Nid oes yna unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.”¹²⁷

Tystiolaeth gan dystion

171. O ran goblygiadau ariannol y Bil, dywedodd CLILC:

“The financial implications are covered in the Explanatory Memorandum. The only area of some uncertainty is around the new charges that could be levied by the Local Government Boundary Commission on authorities for undertaking a community area review. The costs for such reviews vary, and the Explanatory Memorandum estimates that this would cost between £8,000 to £15,000 and that it should not be in excess of the cost should the authority have undertaken a review itself. Most of the costs incurred undertaking a community review relate to local authority staff time; where an authority requests that the Commission undertakes a community review on its behalf or the Commission decides to undertake a review due to delays, it is likely to be due to internal capacity constraints within the authority in question. Any reviews undertaken by the Commission are therefore likely to be an additional cost to an authority.”¹²⁸

172. Mynegodd Un Llais Cymru bryderon am y costau i gynghorau tref a chymuned, gan ddweud:

“the potential barriers for many councils would include issues such as capacity, expertise and the need for training and these issues have direct financial implications.”¹²⁹

173. Mynegodd rhai cynghorau tref a chymuned hefyd bryderon am gostau sy'n ymwneud â darpariaethau mynediad at wybodaeth. Dywedodd Cyngor Cymuned Llandochoau:

¹²⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 75, tudalen 21

¹²⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 8

¹²⁹ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD 11

“The costs of developing and maintaining a website would stretch the capacity of those councils with low level precepts.”¹³⁰

Tystiolaeth gan y Gweinidog

174. Pan ofynnwyd am y costau sy'n gysylltiedig â newidiadau i'r Bil i'r Comisiwn, dywedodd y Gweinidog:

“we do not believe that there will be any significant challenges in terms of the additional funding requirements to do this. This has been a tidying-up exercise of how the organisation operates... We do not believe that there will be any additional financial burdens on the organisation, and any costs that are already there will be managed within the boundary commission's financial envelope.”¹³¹

175. Gofynnodd y Gweinidog hefyd am y costau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau i gynghorau tref a chymuned:

“We have started a piece of work on looking at what the costs of doing this are in terms of town and community councils; ... If there is a cost to doing this, working collaboratively across the organisations, perhaps through One Voice Wales, would provide an opportunity to enable councils to become web-based. So, I am seeking to place a duty on councils to become web-based and I will be announcing shortly how I will be able to support town and community councils to do that.”¹³²

176. Pan ofynnwyd am y cyhoeddiad cyllid a wnaed ar 29 Ionawr 2013, dywedodd y Gweinidog:

“The funding will be allocated under a grant mechanism to principal councils. I think that I am right in saying that the funding will be £500 per council in each unitary authority area, which will go to the principal council. There will be conditions based on the expectation of delivery around the grant, and I have already opened discussions with One Voice Wales on opportunities that it might have to work with town and

¹³⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, LGD21

¹³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 71, 9 Ionawr 2013

¹³² Cofnod y Trafodion, paragraff 98, 9 Ionawr 2013

community councils to enable them to work with principal authorities. I have opened dialogue to get them around the table to ensure that this can happen. So, the money will go to the principal councils—£500 per council within the area.”¹³³

Ein barn

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y goblygiadau cost a nodwyd wrth ddarparu mynediad at wybodaeth gan gynghorau tref a chymuned. Mae'r Pwyllgor yn fodlon y dylai hyn gael ei ddatrys gan y cyllid a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ar 29 Ionawr 2013.

¹³³ Cofnod y Trafodion, paragraff 114, 6 Chwefror 2013

9. Tystion

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y tystion a ganlyn ar y dyddiadau a nodir. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau dystiolaeth lafar yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=1306>

9 Ionawr 2013 a 6 Chwefror 2013

Carl Sargeant AC Y Gweinidog Llywodraeth Leol a
Chymunedau

17 Ionawr 2013

Owen Watkin,
Cadeirydd *Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru*

Steve Halsall,
Dirprwy
Ysgrifennydd *Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru*

Daniel Hurford,
Pennaeth Polisi,
Gwella a
Llywodraethu *Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
(CLILC)*

Dilys Phillips,
Cadeirydd ACSeS
Cymru *Cymdeithas Ysgrifenyddion a Chyfreithwyr
Cynghorau, Cangen Cymru ("ACSeS")*

23 Ionawr 2013

Lyn Cadwallader,
Prif Weithredwr Un Llais Cymru

Robert Robinson,
Ysgrifennydd y
Gymdeithas *Cymdeithas Cynghorau Tref a
Chynghorau Cymuned Mwy Gogledd
Cymru*

Y Cynghorydd
Mariette Roberts *Tywyn a Bae Cinmel*

Stephen Brooks,
Cyfarwyddwr

Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru

Darren Hughes,
Cyfarwyddwr
Ymgyrchoedd ac
Ymchwil y DU

Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru

Owain ap-Gareth,
Cyfarwyddwr
Ymgyrchoedd ac
Ymchwil Cymru

Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru

31 Ionawr 2013

Anthony Barrett,
Archwilydd
Cyffredinol
Cynorthwyol

Swyddfa Archwilio Cymru

Martin Peters,
Rheolwr
Cydymffurfio

Swyddfa Archwilio Cymru

Peter Tyndall,
Ombwdsmon
Gwasanaethau
Cyhoeddus Cymru

*Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
Cymru*

Elizabeth Thomas,
Cyfarwyddwr
Ymchwiliadau a
Chynghorydd
Cyfreithiol

*Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
Cymru*

10. Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

177. Darparodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=5904>

<i>Enw / Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
<i>Ymateb gan unigolyn</i>	<i>LGD 1</i>
<i>Cyngor Cymuned Cenarth</i>	<i>LGD 2</i>
<i>Cyngor Cymuned Myddfai</i>	<i>LGD 3</i>
<i>Cyngor Cymuned Llangatwg Feibion Afel</i>	<i>LGD 4</i>
<i>Cyngor Cymuned Defawden</i>	<i>LGD 5</i>
<i>Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru</i>	<i>LGD 6</i>
<i>Cymdeithas Ysgrifenyddion a Chyfreithwyr Cyngorau, Cangen Cymru ("ACSeS")</i>	<i>LGD 7</i>
<i>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</i>	<i>LGD 8</i>
<i>Cymdeithas Cyngorau Tref a Chyngorau Cymuned Mwy Gogledd Cymru</i>	<i>LGD 9</i>
<i>Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru</i>	<i>LGD 10</i>
<i>Un Llais Cymru</i>	<i>LGD 11</i>
<i>Dienw</i>	<i>LGD 12</i>
<i>Cyngor Tref Cei Conna</i>	<i>LGD 13</i>
<i>Cyngor Tref Dinbych</i>	<i>LGD 14</i>
<i>Cyngor Cymuned Llandyfaelog</i>	<i>LGD 15</i>
<i>Swyddfa Archwilio Cymru</i>	<i>LGD 16</i>
<i>Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol</i>	<i>LGD 17</i>
<i>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru</i>	<i>LGD 18</i>
<i>Cyngor Cymuned Llanharan</i>	<i>LGD 19</i>
<i>Cyngor Cymuned Pencraig</i>	<i>LGD 20</i>
<i>Cyngor Cymuned Llandochoau</i>	<i>LGD 21</i>

<i>Cyngor Cymuned Llanarthne</i>	<i>LGD 22</i>
<i>Cyngor Tref Bwcle</i>	<i>LGD 23</i>
<i>Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon</i>	<i>LGD 24</i>
<i>Cyngor Tref Llanelli</i>	<i>LGD 25</i>
<i>Cyngor Tref Penarth</i>	<i>LGD 26</i>
<i>Cyngor Tref Llanfairfechan</i>	<i>LGD 27</i>
<i>Cyngor Tref Pontardawe</i>	<i>LGD 28</i>
<i>Cyngor Tref y Barri</i>	<i>LGD 29</i>
<i>Cyngor Cymuned yr Ystog</i>	<i>LGD 30</i>
<i>Cyngor Gwledig Llanelli</i>	<i>LGD 31</i>
<i>Cyngor Cymuned Pont-y-pŵl</i>	<i>LGD 32</i>
<i>Cyngor Sir y Fflint</i>	<i>LGD 33</i>
<i>Cyngor Tref Caernarfon</i>	<i>LGD 34</i>
<i>Cyngor Cymuned Henllanfallteg</i>	<i>LGD 35</i>
<i>Cyngor Cymuned Treamlod</i>	<i>LGD 36</i>
<i>Cyngor Tref y Fenni</i>	<i>LGD 37</i>
<i>Cyngor Cymuned Casmael</i>	<i>LGD 38</i>
<i>Cyngor Caerdydd</i>	<i>LGD 39</i>
<i>Cyngor Cymuned Llangoedmor</i>	<i>LGD 40</i>
<i>Cyngor Cymuned Mochdre gyda Phenystyrywaid</i>	<i>LGD 41</i>